This is a reproduction of a library book that was digitized by Google as part of an ongoing effort to preserve the information in books and make it universally accessible.

Google books

https://books.google.com

Digitized by Google

Digitized by Google

8/5. a. 12

Y

# CYFARWYDDWR CRISTIONOGOL,

NEU

# HOLWYDDOREG

AR

BRIF BYNGCIAU A DYLEDSWYDDAU CREFYDD,

ER HYFFORDDIAD YSGOLHEIGION YR YSGOL SABBOTHOL.

---

GAN W. REES, HEOL MOSTYN.

---

Argraffiad newydd.

---

*GWYNDOD-WRYF:*

LLANRWST:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

1833.

Digitized by Google

BRITISH MUSEUM

Digitized by Google

# Y CYFARWYDDWR, &c.

## PENNOD I.

### Am Dduw.

Gof. 1. *Beth yw sylfaen crefydd?*
Atteb. Bod Duw: "Rhaid i'r hwn sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef." Heb. 11.

G. 2. *Beth sydd yn profi fod Duw?*

A. 1. Ei waith fel Creawdwr: "Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod." Rhuf. 1.20.

2. Goruchwyliaeth a threfn ei ragluniaeth: "Er hyny ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddi dyst, gan wneuthur daioni, a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymhorau ffrwythlawn, a llenwi ein calonau ni â lluniaeth ac â llawenydd." Act. 14. 17.

3. Y mae ei air santaidd yn ein dysgu am dano, ac yn ein tywys i adnabyddiaeth gywir o hono. "Fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd yr hyspysais i ti heddyw, ie, i ti. Oni ysgrifenais i ti eiriau ardderchog o gyngor a gwybodaeth?" Diar. 22. 19, 20.

G. 3. *A ydyw y greadigaeth yn amlwg a digonol brawf fod Duw?*

A. Ydyw: "Ond gofyn yn awr i'r anifeiliaid, a hwy a'th ddysgant, ac i ehediaid yr awyr, a hwy a fynegant i ti. Neu, dywed wrth y ddaear, a hi a'th ddysg: a physgod y môr a hyspysant i ti. Pwy ni ŵyr yn y rhai hyn oll, mai llaw yr Arglwydd a wnaeth hyn?" Job 12. 7, 8, 9.

G. 4. *Pa fath fod yr ymddengys Duw yn ngwyneb ei weithredoedd?*

Digitized by Google

A. Fel un anfeidrol mewn mawredd, gallu, a doethineb: "Dyrchafwch eich llygaid i fynu, ac edrychwch pwy a greodd y *rhai* hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi: efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla un." Esa. 40. 26.

G. 5. *A ydyw trefn rhagluniaeth yn gosod allan fawredd a gogoniant Duw?*

A. Ydyw, yn amlwg iawn i bawb: "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw: a'r ffurfafen sydd yn mynegu gwaith ei ddwylaw ef. Dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth. Nid oes iaith nac ymadrodd lle ni chlubuwyd eu lleferydd hwynt. Eu lliuyn a aeth trwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithafoedd y byd." Sal. 19. 1, 2, 3, 4.

G. 6. *Pa fodd y mae i ni adnabod meddwl ac ewyllys Duw?*

A. Trwy ei air, yn yr hwn y mae yn dadguddio ei hun, ei feddwl a'i ewyllys, i ni, gymaint sydd yn angenrheidiol i ni ei wybod er ein hiechydwriaeth: "Dangosodd efe i ti, ddyn, beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda 'th Dduw." Mica 6. 8.

G. 7. *Pa beth a amlygir i ni yn y gair am Dduw?*

A. Mai Yspryd anweledig, anfarwol a thragywyddol ydyw: "Yspryd yw Duw. Ac i'r Brenhin tragywyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth y byddo anrhydedd a gogoniant yn oesoesoedd. Amen." Ioan 4. 1 Tim. 1. 17.

G. 8. *Pa fath yw Duw yn ei fawredd?*

A. Un anfeidrol uwchlaw i'n hamgyffrediadau ni i'w gynwys, na'i chwilio allan: "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch â'r nefoedd ydyw, beth a wnai di? dyfnach nâg uffern yw, beth a elli di ei wybod? Y

Digitized by Google

mae ei fesur ef yn hwy nâ'r ddaear, ac yn lletach na'r môr." Job 11. 7, 8, 9.

G. 9. *A ydyw Duw yn Hollalluog?*

A. Ydyw: "Canys gyda Duw pob peth sydd bosibl." Math. 19. 26.

G. 10. *A ydyw Duw yn Hollbresenol?*

A. Ydyw: "Onid wyf fi yn llenwi y nefoedd a'r ddaear? medd yr Arglwydd." Jer. 23. 24. Salm 139.

G. 11. *A ydyw efe yn hollwybodol?*

A. Ydyw: "Yn gwybod y diwedd o'r dechreu, ac er cynt yr hyn ni wnaed etto." Esa. 46. 10.

G. 12 *A ydyw Duw yn anghyfnewidiol?*

A. Ydyw: "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Mal. 3. 6.

G. 13. *Pa beth yw tystiolaeth y gair am gymeriad moesol Duw?*

A. 1. Ei fod yn gyfiawn yn ei holl ymddygiadau, ac yn caru yr un ymddygiad yn ei holl greaduriaid rhesymol: "Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd. Yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder." Sal. 145. 17, a 11.7.

2. Ei fod yn rhagori ar bawb mewn sancteiddrwydd: "Nid sanctaidd neb fel yr Arglwydd." 1 Sam. 2. 2.

3. Ei fod yn drugarog a graslawn: "Trugaog a graslawn yw yr Arglwydd, hwyrfrydig i lid, a mawr o drugarawgrwydd." Sal. 103. 8.

4. Ei fod yn dda ynddo ei hun, ac yn ddaionus i eraill: "Da ydwyt, a daionus. Daionus yw yr Arglwydd i bawb." Sal. 119. 68. a 145. 9.

G. 14. *A oes mwy nag un Duw?*

A. Nac oes: "Nid oes Duw ond myfi." Esa. 45. 5.

G. 15. *Pa fodd y'n dysgir yn y gair fod Duw yn hanfodi, o ran trefn?*

A. Yn dri o bersonau gwahaniaethol, cyd-dragywyddol a gogyfuwch: "Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, sef y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân, a'r tri hyn, un ydynt." 1 Ioan 5. 7.

Digitized by Google

G. 16. *Beth a ddysgir i ni oddiwrth y golygiadau hyn am Dduw?*

A. Y dylem gydnabod ei deilyngdod o'n hofn mwyaf parchus, ein gwasanaeth mwyaf ffyddlon, ein hufudd-dod mwyaf parod, a'n cariad mwyaf gwresog: "Yn gymaint ag nad oes neb fel tydi, O Arglwydd, mawr wyt, a mawr yw dy enw mewn cadernid. Pwy ni'th ofna di Brenhin y Cenhedloedd; canys i ti y gweddai: o herwydd yn mysg holl ddoethion y cenhedloedd, ac yn mysg eu holl deyrnasoedd hwy, nid oes neb fel tydi." Jer. 10 6, 7.

---

## PEN II.

### AM WEITHREDOEDD DUW, &c.

G. 1. *Pwy a greodd bob peth?*

A. Duw: "Myfi yr Arglwydd sydd yn gwneuthur pob peth, yn estyn y nefoedd fy hunan, yn lledu y ddaear o honof fy hun." Esa. 44. 24.

G. 2. *O ba ddefnydd y gwnaeth Duw bob peth?*

A. O ddim: "Yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir." Heb. 11. 2.

G. 3. *Mewn pa faint o amser y gwnaeth Duw bob peth?*

A. Mewn chwech diwrnod: "O herwydd mewn chwech diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt." Ecs. 20. 11.

G. 4. *I ba ddyben y creodd efe y pethau hyn?*

A. I'r dyben i ddangos ei fawredd a'i ogoniant ei hun: "Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun. Diar. 6. 4.

G. 5. *O ba beth y gwnaeth efe ddyn?*

A. Efe a luniodd ei gorph o bridd y ddaear: "A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaear." Gen. 2. 7.

Digitized by Google

G. 6. *A ydyw dyn yn feddianol ar fwy nag un ran, neu sylwedd?*

A. Ydyw: "Ond y mae Yspryd mewn dyn." Job 32. 8.

G. 7. *Pa fodd y mae dyn yn derbyn y sylwedd hwn?*

A. Y mae yn ei dderbyn yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw: "Yna dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr Yspryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef." Preg. 12. 7. Zech. 12. 1.

G. 8. *Mewn pa fath gyflwr neu sefyllfa y creodd Duw ddyn ar y cyntaf?*

A. Mewn cyflwr dedwydd a gogoneddus iawn: "Felly yr Arglwydd Dduw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef." Gen. 1. 27.

G. 9. *Ym mha le y gosodwyd y dyn ar ol ei greu?*

A. Yn ngardd Eden; "Hefyd yr Arglwydd Dduw a blanodd ardd yn Eden o du y dwyrain, ac a osododd yno y dyn a luniasai efe." Gen. 2. 8.

G. 10. *Beth oedd y gwaith a roddes yr Arglwydd i'r dyn yn ngardd Eden?*

A. Llafurio a chadw yr ardd, ac arglwyddiaethu ar holl greaduriaid y byd hwn: "Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwylaw; gosodaist bob peth dan ei draed ef: Defaid ac ychain oll, ac anifeiliaid y maes hefyd; ehediaid y nefoedd a physgod y môr, ac y sydd yn tramwyo llwybrau y mòroedd." Sal 8. 6, 7, 8.

G. 11. *A ydyw Duw yn gofalu am ei holl greaduriaid?*

A. Ydyw: "Llygaid pob peth a ddisgwyliant wrthyt, ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd. Gan agoryd dy law a diwallu pob peth byw â'th ewyllys da." Sal. 145. 15, 16.

G. 12. *Pa beth sydd i ni ystyried o ddiwrth hyn?*

A. 1. Dylem ddoeth a duwiol ystyried Duw yn mhob rhan o'i waith: "Cofia fawrhau ei waith ef, ar yr hwn yr edrych dynion. A phob dyn a ofna ac a fynega waith Duw: canys doeth ystyriant ei waith ef." Job 36. 24. Salm 64. 9.

Digitized by Google

2. Dylem ystyried a chydnabod ein bod yn ymddybynol ar Dduw yn mhob peth, a bod yn ddiolchgar iddo *am* bob peth: "Oblegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod. Yn mhob dim diolchwch." Act. 17. 28. 1 Thes. 5. 18.

3. Dylem gydnabod fod gan yr Arglwydd hawl ynom fel ei greaduriaid, i ofyn parch, ufudd-dod, a gwasanaeth genym: "Mab a anrhydedda ei dad, a gweinidog ei feistr: ac os ydwyf fi dad, pa le y mae fy anrhydedd? ac os ydwyf fi feistr, pa le mae fy ofn? medd Arglwydd y lluoedd." Mal. 1. 6.

Mae'th holl weithredoedd, Arglwydd Iôr,
Trwy'r ddaear faith a'r eang fôr,
Yn datgan dy ogoniant maith,
Yn uchel uchel yn eu hiaith.

Yr haul, a'r bydoedd oll uwch ben,
Aneirif lu sy'n britho 'r nen;
A gyd osodant allan glod,
Y bysedd roddes iddynt fod.

Ond yn ei air er hyny cawn,
O hono ef ddatguddiad llawn;
Fel Duw sy'n hoffi trugarhau,
Yn medru maddeu a chuddio bai.

Boed mawl a chlod i'w enw ef,
Am oll a wnaeth trwy 'r ddae'r a'r nef,
Yn benaf dim am air ei ras,
A'r hyn ddatguddir ynddo i maes.

---

## PEN. III.

### AM Y CWYMP A'I GANLYNIADAU.

G. 1. *A safodd dyn yn y cyflwr dedwydd y creodd Duw ef ynddo?*

A. Na ddo: "Dy dad cyntaf a bechodd." Esa. 43. 27.

G. 2. *Pa fodd y syrthiodd dyn?*

A. Trwy anufuddhau i orchymyn Duw.

G. 3. *Beth oedd y gorchymyn hwn?*

Digitized by Google

A. Peidio bwyta o ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg. Gen. 2. 17.

G. 4. *Beth oedd dyben Duw wrth waharddu hwn iddo?*

A. I fod yn brawf o ufudd-dod y dyn, ac i ddangos pen-arglwyddiaeth ac awdurdod Duw, yn rhoddi iddo, ac yn atal oddiwrtho yr hyn a welai efe ei hun yn dda.

G. 5. *A roddodd yr Arglwydd rywbeth yn gymhelliadol i'r dyn i ufudd-dod?*

A. Do: 1. Yr oedd addewid o fywyd a gwynfyd parhaus iddo, os ufuddhâi.

2. Rhagfynegodd Duw hefyd yn mlaen llaw beth a fyddai y canlyniad os *anufuddhâi.* "Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta o hono; canys yn y dydd y bwytai o hono, gan farw y byddi farw." Gen. 2. 17.

G. 6. *Beth a fu y canlyniad o anufudd-dod y dyn?*

A. Myned yn agored i'r gosp a fygythiasid arno: sef, "Gan farw y byddi farw."

G. 7. *Beth sydd yn gynwysedig yn y farwolaeth hon?*

A. 1. Marwolaeth ysprydol yr enaid mewn pechod, sef ei hollol ymadawiad â Duw, a chwbl amddifadrwydd o duedd at sancteiddrwydd a daioni. "Edrychodd Duw i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion, i edrych a oedd neb yn ddeallus, ac yn ceisio Duw. Ciliasai pob un o honynt yn wysg ei gefn: cydymddifwynasant, nid oes a wnel ddaioni, nac oes un." Salm 53. 2, 3.

2. Marwolaeth naturiol, sef ysgariad corph ac enaid oddiwrth eu gilydd yn angeu: "Pa ŵr a fydd byw ac ni wel farwolaeth." Salm 89. 48.

3. Marwolaeth dragywyddol, sef y gosp a ddyoddefir yn uffern tan ddigofaint Duw: "Y rhai a oddefant yn gospedigaeth, ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef." 2 Thes. 1. 9.

G. 8. *A syrthiodd y gosp hon i'r graddau eithaf ar Adda yn ddioed, ar ol iddo bechu?*

A. Naddo.

Digitized by Google

G. 9. *A ddangosodd yr Arglwydd unrhyw anfoddlonrwydd tuag ato?*

A. Do. 1. Trwy ei alw i gyfrif am yr hyn a wnaethai: "A dywedodd Duw, Pwy a fynegodd i ti dy fod yn noeth? ai o'r pren y gorchymynaswn i ti na fwyteit o hono y bwytëaist?" Gen. 3. 11.

2. Trwy fellditbio y ddaear o'i achos: "Hefyd wrth Adda y dywedodd, Am wrando o honot ar lais dy wraig, a bwyta o'r pren am yr hwn y gorchymynaswn i ti, gan ddywedyd, Na fwyta o hono, melldigedig fydd y ddaear o'th achos di. Drain ac ysgall a ddwg hi i ti." Gen. 3. 17, 18.

3. Trwy ei ddarostwng i lafur a gofid tros weddill ei ddyddiau: "Trwy chwys dy wyneb y bwytei fara hyd pan ddychwelech i'r ddaear." Gen. 3. 19.

4. Trwy ail gadarnhau rhan o'r bygythiad, Gan farw y byddi farw," arno: "Canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli." Gen. 3. 9.

5. Trwy ei anfon allan o ardd Eden: "Felly yr Argwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden i lafurio y ddaear o'r hon y cymerasid ef." Gen 3. 22.

G. 10. *A oedd pechod Adda yn nieweidiol i ni?*

A. Oedd, i bawb: "Yn Adda y mae pawb yn meirw." Rhuf. 5. 9. a 1 Cor. 15. 22.

G. 11. *A amlygodd Duw ei anfoddlonrwydd drachefn tuag at bechod?*

A. Do, yn mhob oes: "Digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion. Rhuf. 1. 18.

G. 12. *Pa beth sydd i ni i'w dysgu a'u hystyried oddiwrth hyn?*

A. Mawr ogoniant ein cyflwr crëedigol: "Wele hyn yn unig a gefais, wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn." Preg. 7. 29.

2. Y trueni a'r iselder mawr yr aethom iddo trwy y

Digitized by Google

cwymp: "Megis deilen y syrthiasom ni oll; a'n hanwireddau megis gwynt a'n dug ni ymaith."

## PEN. IV.

### AM BECHOD A'I EFFEITHIAU.

G. 1. *Beth yw pechod?*

A. Drwg moesol: sef troseddiad o'r Gyfraith a roddes Duw yn rheol foesol i'w greaduriaid, rhesymol: "Pob un a'r sydd yn gwneuthur pechod, sydd hefyd yn gwneuthur anghyfraith; oblegid anghyfraith yw pechod." 1 Ioan 3. 4.

G. 2. *Pa sawl math ar bechod sydd?*

A. Dau fath, sef gwreiddiol a gweithredol."

G. 3. *Beth yw pechod gwreiddiol?*

A. 1. Hollol amddifadrwydd o sancteiddrwydd ein cyflwr creedigol, neu ddelw Duw wedi ei cholli trwy y cwymp: "Wele mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Sal. 51. 5.

2. Tuedd naturiol yn y galon at bechod a drygioni: "A dywedodd yr Arglwydd yn ei galon, Ni chwanegaf felldithio y ddaear mwy er mwyn dyn o herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuengctyd." Gen. 8. 21. a Sal. 58. 3.

G. 4. *Beth yw y pechod gweithredol?*

A. Chwant neu lygredigaeth y galon yn tòri allan mewn geiriau neu ymddygiadau cyhoeddus: "Yna, chwant wedi ymddwyn a esgor ar bechod." Iago 1. 15.

G. 5. *A ydyw holl ddynolryw wedi myned yn llygredig trwy bechod?*

A. Ydynt: "Oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw." Rhuf. 3. 23.

G. 6. *A ydyw'r holl ddyn wedi ei halogi?*

A. Ydyw: "Y pen oll sydd glwyfus, a'r holl galon yn llesg. O wadn y troed hyd y pen nid oes dim cyfan

Digitized by Google

ynddo, ond archollion, a chleisiau, a gweliau crawnllyd." Esa. 1. 5, 6.

G. 7. *Pa fodd y mae adnabod pechod?*

A. "Trwy y ddeddf y mae adnabod pechod."

G. 8. *Pa fodd y mae adnabod pechod trwy y ddeddf?*

A. Am mai y ddeddf sydd yn dangos beth sydd bechod, ac yn ei wahardd: "Canys nid adnabuaswn i drachwant oni bai ddywedyd o'r ddeddf Na thrachwanta." Rhuf. 7. 7.

G. 9. *Pa fodd y mae pechod yn ymddangos yn wyneb y ddeddf?*

A. Fel y drwg a'r niwaid mwyaf: "Fel y byddai pechod trwy y gorchymyn yn dra phechadurus." Rhuf. 7. 13.

G. 10. *Pa fodd y mae drygioni pechod yn cael ei amlygu yn wyneb y gyfraith?*

A. Wrth ystyried daioni, purdeb ac uniondeb y gyfraith, ymddengys pechod, yr hwn sydd yn wrthwyneb iddi, y drygioni a'r ysgelerder mwyaf: "Felly yn wir y mae y ddeddf yn sanctaidd, a'r gorchymyn yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda." Rhuf. 7. 12.

G. 11. *Pa le, heblaw yn wyneb y gyfraith, y gwelir y drwg a'r niwaid sydd mewn pechod?*

A. 1. Yn y casineb sanctaidd sydd yn Nuw tu ag ato: "Ydwyt lânach dy lygaid nag y gelli edrych ar ddrwg, ac ni elli edrych ar anwiredd." Hab. 1. 13.

2. Y mae yn ysgaru rhwng dynion â Duw, ac yn atal daioni oddiwrth ddynion, ac yn tynu dinystr a digofaint arnynt: "Eich anwireddau chwi a ysgarodd rhyngoch chwi â'ch Duw. Eich pechodau a ataliasant ddaioni oddiwrthych. Efe a wna afonydd yn ddiffaethwch, a ffynhonau dyfroedd yn sychdir; A thir ffrwythlawn yn ddiffrwyth, am ddrygioni y rhai a drigant ynddo." Esa. 59. 2. Jerem. 5. 25. Sal. 107. 33, 34.

3. Ymddengys ei ddrygioni a'i erchylldra yn y gosp dragywyddol a ddyoddefir o'i herwydd mewn byd arall:

Digitized by Google

"Y rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol." Math. 25. 46.

4. Yn nyoddefiadau a marwolaeth Crist y gwelir drygioni pechod fwyaf o unman: "Ond efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef." Esa. 53. 5.

G. 12. *Pa bethau a ddylem ddysgu oddiwrth yr ystyriaethau hyn am bechod?*

A. 1. Dylem ddysgu casau a ffieiddio pechod, a chilio oddiwrtho, yn benaf, am ei fod yn taro yn erbyn Duw, ac yn gâs ganddo ef: "Pa fodd y gallaf wneuthur y mawr ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw." Gen. 39. 9.

2. Y dylem alaru a chywilyddio ger bron yr Arglwydd o herwydd ein pechodau; "Gorwedd yr ydym yn ein cywilydd, ein gwarth a'n tôdd ni; canys yn erbyn yr Arglwydd ein Duw y pechasom, nyni a'n tadau, o'n hieuengctyd hyd y dydd heddyw." Jer. 3. 25.

3. Mai yr unig achos o bob gofid a helbul sydd yn cyfarfod dynion yn y byd hwn, a'u dinystr tragywyddol yn y diwedd, yw pechod. "Dy ddrygioni dy hun a'th gospa di, a'th wrthdro, a'th gerydda." Jer. 2. 19.

---

## PEN. V.

### AM DREFN ACHUB

G. 1. *A all dynion eu gwaredu eu hunain o'r cyflwr isel y syrthiasant iddo trwy bechod?*

A. Na allant: "Ac nid oes neb a all gadw yn fyw ei enaid ei hun." Sal. 21. 29.

G. 2. *Ai ni allant waredu eu gilydd?*

A. Na allant: "Gan waredu ni wared neb ei frawd, ac ni all efe roddi iawn trosto i Dduw: Canys gwerth-



Digitized by Google

fawr yw pryniad eu henaid hwynt, a hyny a baid byth." Sal. 49. 7, 8.

G. 3. *A adawodd Duw y byd yn y cyflwr isel hwn?*

A. Naddo: "Canys felly y carodd Duw y byd; fel yr anfonodd efe ei unig anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol." Ioan 3. 16.

G. 4. *Pwy a anfonodd Duw i achub dynion?*

A. "Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun." Rhuf. 8. 3.

G. 5. *A allasai neb arall ein hachub?*

A. Na allasai: "Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall." Act. 4. 12.

G. 6. *A oedd Duw er tragywyddoldeb wedi bwriadu anfon ei Fab i'r byd i achub dynion?*

A. Oedd: "Yr hwn a'n hachubodd ni, ac a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu cyn dechreu y byd." 2 Tim. 1. 9.

G. 7. *Pa bryd yn gyntaf yr amlygodd Duw y bwriad daionus hwn i'r byd?*

A. Yn yr addewid o Hâd y wraig yn Eden, yn fuan wedi y cwymp: "Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti â'r wraig, a rhwng dy hâd di â'i hâd hithau, efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef." Gen. 3. 15.

G. 8. *Pwy a feddylir wrth hâd y wraig?* A. Crist.

G. 9. *Pa ham y mae Crist yn cael ei alw hâd y wraig?*

A. Am y byddai iddo gael ei eni o forwyn: "Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef Imanuel." Esa. 7. 14.

G. 10. *Pa bryd yr ymddangosodd Crist yn y cnawd?*

A. Yn nghyflawnder yr amser a ordeiniwyd gan Dduw: "Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf." Gal. 4. 4.

G. 11. *Yn mha le y ganwyd Crist?*

Digitized by Google

A. Yn Bethlehem Juda: "Canys felly yr ysgrifenwyd trwy y prophwyd, A thithau, Bethlehem, tir Juda, nid lleiaf wyt yn mhlith tywysogion Juda: canys o honot ti y daw Tywysog, yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel." Math. 2. 5, 6.

G. 12. *A ydyw Crist yn Dduw ac yn ddyn hefyd?*

A. Ydyw: "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd." 1 Tim. 3. 11.

G. 13. *Pa fodd y gellir profi Crist yn wir Dduw?*

A. Trwy yr ysgrythyrau. 1. Y mae enwau a theitlau Dwyfol yn cael eu rhoddi arno: "Gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywysog tangnefedd." Esa. 9. 6.

2. Y mae holl berffeithiau y natur Ddwyfol yn cael eu priodoli iddo: "Oblegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol." Col. 2. 9.

3. Y mae y Tad yn gorchymyn addoliad iddo: "A thrachefn, pan yw yn dwyn y cyntaf anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angylion Duw ef." Heb. 1. 6.

4. Cyfrifir gweithredoedd iddo na all neb ond Duw eu cyflawni, megis creu a chynnal y byd, a chyfodi y meirw: "Ac, tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear, a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd. Ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth ef. Y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef." Heb. 1. 3. a 10 Ioan 5. 28.

G. 14. *A ydyw Crist yn wir ddyn yn gystal a gwir Dduw?*

A. Ydyw: "Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yn yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau." Heb. 2. 14.

G. 15. *A oedd raid i'r Gwaredwr fod yn Dduw ac yn ddyn mewn trefn i fod yn gymwys i'r gwaith?*

Digitized by Google

A. Oedd; oblegid, 1. Heb fod yn ddyn, nis gallasai ddyoddef a marw i wneuthur iawn tros ein pechodau: "O herwydd pa ham y mae efe wrth ddyfod i'r byd yn dywedyd, Aberth a phoethoffrwm ni's mynaist, eithr corph a gymhwysaist i mi." Heb. 10. 5.

2. Heb fod yn Dduw, ni fuasai yn hunan-feddiannydd ar ei einioes, i'w dodi i lawr tros eraill; ac ni buasai rhinwedd digonol yn ei ddyoddefiadau, a chymhwysder ynddynt i wneuthur iawn: "Am hyn y mae fy Nhad yn fy ngharu i, am fy mod i yn dodi fy einioes fel y cymerwyf hi drachefn: Nid oes neb yn ei dwyn hi oddiarnaf fi, ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof fy hun. Y mae genyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae genyf feddiant i'w chymeryd hi drachefn." Ioan 10. 17, 18.

G. 16. *A ydyw Crist yn berffaith a digonol waredwr i bechaduriaid?*

A. Ydyw: "Efe a ddychon hefyd yn gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw." Heb. 7. 25.

G. 17. *Pa bethau er ein haddysg a gawn ni oddiwrth hyn?*

A. 1. Yma y gwelwn anfeidrol gariad y Tad, yn ei waith yn anfon ei Fab i'r byd i ddyoddef a marw trosom "Yn hyn y mae cariad, nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef yn gyntaf ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn tros ein pechodau ni." 1 Ioan 4. 10.

2. Mawredd a rhagoroldeb gras Crist, yn ei waith yn ymostwng i gymeryd ein natur i ddyoddef marwolaeth yn ein lle: "Chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef." 2 Cor. 8. 9.

3. Fod ystyriaethau o gariad y Tad atom, dyoddefiadau a marwolaeth Crist trosom, yn gymhelliadau cryfion i ninau garu Duw, a byw er ei ogoniant: "Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.

Digitized by Google

Canys er gwerth y'ch prynwyd chwi; am hyny gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich yspryd." 1 Ioan 4. 19. 1 Cor. 6. 20.

Dyn ydoedd ogoneddus iawn,
Pan ddaeth o ddwylaw Duw:
O bob hawddgarwch 'roedd yn llawn,
Uwch pob creadur byw.

Ond cwympodd ef yn Eden ardd,
Tan eithaf gwg y nen;
A syrthio wnaeth ei goron hardd
I lawr oddiar ei ben.

Ond O anfeidrol gariad Iôr,
Gynhyrfodd ynddo ei hun!
A rhedodd allan fel y môr,
At euog ddamniol ddyn!

Anfonodd ef ei Fab i lawr,
I farw yn ein lle;
A modd i faddeu 'n beiau mawr
Gaed yn ei haeddiant e.

A thrwy rinweddau 'r ffynnon rad
Agorwyd ar y bryn;
Daw 'r pechaduriaid dua gaed,
Yn berffaith, berffaith wyn.

---

## PEN. VI.

### AM SWYDDAU CRIST.

G. 1. *Pa swyddau y mae Crist fel Gwaredwr yn eu gweinyddu?*

A. Swyddau Prophwyd, Offeiriad, a Brenhin.

G. 2. *Gan bwy y gosodwyd Crist yn y swyddau hyn?*

A. Duw Dad a'i heneiniodd ef iddynt: "Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd: am hyny y'th eneiniodd Duw, sef dy Dduw di, âg olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion." Heb. 1. 9.

G. 3. *Pa fath Brophwyd neu ddysgawdwr yw Iesu Grist?*

Digitized by Google

A. 1 Prophwyd mawr ydyw: "Pwy sydd yn dysgu fel efe? Job 36. 22.

2. Y mae yn Brophwyd â Dwyfol awdurdod yn ei ddysgeidiaeth: "Canys yr oedd efe yn eu dysgu fel un ag awdurdod ganddo." Math. 7. 29.

G. 4. *Pa bethau y mae Crist fel Prophwyd yn ddysgu i'w bobl.*

A. 1. Eu dysgu i adnabod Duw: "Ni welodd neb Dduw erioed; yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hyspysodd ef." Ioan. 1. 18.

2. Eu dysgu i adnabod meddwl Duw yn ei air: "Yna yr agorodd efe eu deall hwynt, fel y deallent yr ysgrythyrau." Luc 24. 45.

3. Eu dysgu i ymwrthod â phechod, ac i ymgais am burdeb a sancteiddrwydd: "Eithr chwychwi, nid felly y dysgasoch Grist. Os bu i chwi ei glywed ef, ac os dysgwyd chwi ynddo, megis y mae y gwirionedd yn yr Iesu: Dodi o honoch heibio o ran yr ymarweddiad cyntaf, yr hen ddyn, yr hwn sydd lygredig yn ol chwantau twyllodrus; Ac ymadnewyddu yn yspryd eich meddwl; A gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Eph. 4. 20, 21, 22, 23, 24.

G. 5. *Pa beth y mae Crist yn addaw i'r rhai a gymerant eu dysgu ganddo?*

A. Gorphwysfa i'w heneidiau: "Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf;—a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau." Math. 11. 29.

G. 6. *A ydyw yn beryglus gwrthod ei ddysgeidiaeth?*

A. Ydyw, yn bechadurus ac yn beryglus iawn: "A bydd, pob enaid a'r ni wrandawo ar y Prophwyd hwnw, a lwyr ddifethir o blith y bobl." Act. 3. 23.

G. 7. *Trwy ba foddion y mae Crist yn dysgu?*

A. 1. Trwy ei air a'i Yspryd: "At y gyfraith ac at y dystiolaeth. Ond pan ddêl efe, sef Yspryd y gwirionedd, efe a'ch tywys i bob gwirionedd." Esa. 8. 20. a. Ioan 16. 13.

Digitized by Google

2. Trwy yr is-weinyddwyr a osododd efe yn ei Eglwys: "Ewch gan hyny a dysgwch yr holl genhedloedd. Ac efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn Efengylwyr a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon." Math. 28. Eph. 4. 11.

Prophwyd mawr yw'r Arglwydd Iesu,
"Pwy sy'n dysgu fel efe?"
Dysg ynfydion fod yn ddoethion,
'N nyfnion bethau teyrnas ne';
Boed i ninau, &c.
Oll gael bod o tan ei law.

---

## PEN. VII.

### Am Offeiriadaeth Crist.

G. 1. *Beth oedd y gwaith a wnaeth Crist fel Offeiriad?*

A. Offrymu un aberth tros ein pechodau: "Eithr hwn, wedi offrymu un aberth tros bechodau, yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw." Heb. 10. 12.

G. 2. *Beth oedd yr aberth a offrymodd Crist?*

A. Offrymu ei hunan a wnaeth: "Pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Yspryd tragywyddol, a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw." Heb. 9. 4.

G. 3. *A roddodd Crist ei gorph a'i enaid i fod yn aberth tros bechod?*

A. Do: "Trwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein sancteiddio trwy offrymiad corph Iesu Grist un waith. Pan osodo efe ei enaid yn aberth tros bechod." Heb. 10. 10. Esa. 53. 10.

G. 4. *Yn mha berthynasau y mae aberth ac iawn Crist i'w hystyried?*

A. Yn ei berthynas â llywodraeth Duw, ei ras a'i arfaeth, Crist ei hun, a phechadur.

Digitized by Google

G. 5. *Beth yw yr iawn yn ei berthynas â* LLYWODRAETH *Duw?*

A. Yn yr *iawn* y dangoswyd grym ac uniondeb y llywodraeth ddwyfol yn amlycach ac yn eglurach nag erioed o'r blaen; canys dangosodd Crist yn eglur yn ei fywyd a'i farwolaeth, na ddaeth i'r byd i achub dynion trwy dòri cyfraith a llywodraeth Duw, ond trwy eu hanrhydeddu yn ei fywyd, ac ateb eu gofynion hyd yr eithaf yn ei farwolaeth ar y groes: "Na thybiwch fy nyfod i dòri y gyfraith, neu y prophwydi: ni ddaethum i dòri, ond i gyflawni." Math. 5. 17.

2. Yn ngosodiad Crist i fod yn *iawn*, ac yn ymddygiad y Tad tuag ato pan yn *rhoddi iawn*, yr amlygwyd egwyddorion anghyfnewidiol y llywodraeth, ac anmhleidgarwch mwyaf diduedd y Jehofa fel gweinyddwr o honi: "Eithr yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef, efe a'i clwyfodd. Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll." Esa. 53. 10. Rhuf. 8. 32.

3. Yn yr *iawn*, yr atebwyd dybenion cosp er boddlonrwydd mwy, a gogoniant uwch i'r llywodraeth a'r gyfraith, na phe buasai yr holl droseddwyr yn dyoddef y gosp yn eu personau eu hunain; canys nid oes neb yn uffern yn rhoddi iawn neu foddlonrwydd wrth ddwyn y gosp ddyledus am bechod: "Yr Arglwydd sydd foddlawn er mwyn ei gyfiawnder; efe a fawrhâ y gyfraith, ac a'i gwna yn anrhydeddus." Esa. 42. 21.

4. Yn iawn Crist y rhoddwyd yr atalfa fwyaf effeithiol ar ffordd cynnydd pechod yn mhlith deiliaid llywodraeth Duw: trwy ddangos, yn amlycach nag erioed, yr anfeidrol ddrygioni sydd ynddo, a'r perygl ofnadwy sydd o fyw a marw tan ei lywodraeth: "Canys os gwnant hyn yn y pren îr, pa beth a wneir yn y crin." Luc 23. 31.

5. Wrth weinyddu maddeuant mewn *iawn*, y mae'r llywodraeth, a Duw fel llywodraethwr, yn cael eu gogoneddu yn fwy na phe buasai yr holl droseddwyr yn cael eu damnio: "Yr hwn a osododd Duw yn iawn trwy

Digitized by Google

ffydd yn e waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen trwy ddyoddefgarwch Duw." Rhuf. 3. 25.

G. 6. *Pa beth yw yr iawn yn ei berthynas âg arfaeth a gras Duw?*

A. 1. Nid rhwymo na thueddu Duw i drugarhau a wnaeth yr iawn, oblegid y mae Duw yn drugarog a graslawn yn ei natur erioed: "A'r Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, JEHOFA, JEHOFA, y Duw trugarog a graslawn." Ecs. 34. 6.

2. Eithr yn yr *iawn*, yr agorwyd llwybr i Dduw yn unol â gogoniant ei holl Briodoliaethau, i ddangos ei hun fel Duw graslawn, trwy gynnyg cymmod a maddeuant i'r byd gwrthryfelgar: "Sef bod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." 2 Cor. 5. 20.

3. Yn yr iawn y sicrhawyd bwriadau grasol Duw yn ei arfaeth dragywyddol gyda golwg ar iachawdwriaeth a gogoneddiad ei eglwys etholedig: Y gwyr, cerwch eich gwragedd, megis ag y carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti: Fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhau â'r olchfa ddwfr, trwy y gair: Fel y gosodai efe hi iddo ei hun yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw; ond fel y byddai yn sanctaidd a difeius." Eph. 5. 25, 26, 27.

G. 7. *Beth yw yr iawn yn ei berthynas â'r Cyfryngwr?*

A. 1. Sylfaen ei ddercharfiad a'i ogoniant cyfryngol: "A'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes: ó herwydd pa ham, Duw a'i tradyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw; Fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a daearolion, a than-ddaearolion bethau; Ac y cyffesai pob tafod, fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad." Phil. 2. 8, 9, 10, 11.

2. Yn rhoddiad yr iawn y sicrhaodd iddo ei hun y

Digitized by Google

wobr à addawsid iddo am ei lafur: "Am hyny y rhanaf iddo ran gyda llawer, ac efe a rana 'r yspail gyda 'r cedyrn: am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth." Esa. 53. 12.

*G.* 8. *Beth yw yr iawn i'r troseddwr?*

A. Llwybr rhydd iddo nesâu at Dduw mewn gweddi trwyddo, am gymod a heddwch, a phob bendith angenrheidiol: "Yn yr hwn y mae i ni hyfdra a dyfodfa trwy ei ffydd ef." Eph. 3. 12.

2. Trwy yr iawn y cafwyd gweinidogaeth yr efengyl, ac addewid o'r Yspryd Glân i'w heffeithioli er iechydwriaeth: "Canys eto nid oedd yr Yspryd Glân wedi ei roddi, o herwydd na ogoneddasid yr Iesu eto." Ioan 7. 39. Eph. 4. 11, 12.

---

## PEN. VIII.

### Am Eiriolaeth Crist.

*G.* 1. *A ydyw Crist yn aros yn ei swydd fel Offeiriad wedi ei esgyniad i'r nef?*

A. Ydyw: "Ond hwn, am ei fod yn aros yn dragywydd, sydd ag offeiriadaeth dragywyddol ganddo." Heb. 7. 24.

*G.* 2 *Pa beth a wna Crist fel Offeiriad yn y nefoedd?*

A. "Eiriol tros y troseddwyr." Esa. 53. 12.

*G* 3. *Ar ba sail y mae Crist yn eiriol?*

A. Y mae yn eiriol yn y nef ar sail yr hyn a wnaeth ar y ddaear: "Y mae i ni eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y cyfiawn,: ac efe yw yr iawn tros ein pechodau ni." 1 Ioan 2. 1, 2.

*G.* 4. *Pa ffrwyth sydd yn deilliaw oddiwrth eiriolaeth Crist i'r byd yn gyffredinol?*

A. Estyniad amser a breintiau: Gâd ef y flwyddyn hon hefyd, hyd oni ddarffo i mi gloddio o'i amgylch ef a bwrw tail." Luc 13. 8.

Digitized by Google

*G. 5. Pwy ydynt wrthrychau neillduol eiriolaeth Crist?*

A. Ei bobl etholedig a roddwyd iddo gan y Tad: "Trostynt hwy yr wyf fi yn gweddio: nid tros y byd yr wyf yn gweddio, ond tros y rhai a roddaist i mi, canys eiddot ti ydynt." Ioan 17. 9.

G. 6. *Am ba bethau y mae Iesu Grist yn eiriol i'w bobl?*

A. 1. Am iddynt oll fod yn un â'u gilydd: "Fel y byddont oll yn un, megis yr wyt ti, y Tad ynof fi, a minau ynot ti: fel y byddont hwythau un ynom ni." Ioan 17. 21.

2. Am faddeuant beunyddiol iddynt o'u pechodau: "O phecha neb, y mae i ni eiriolwr." 1 Ioan 2. 1.

3. Am nerth iddynt i sefyll yn wyneb temtasiynau y gelyn: "A'r Arglwydd a ddywedodd, Simon, Simon, wele, Satan a'ch ceisiodd chwi i'ch nithio fel gwenith: Eithr mi a weddiais trosot, fel na ddiffygiai dy ffydd." Luc 22. 31, 32.

4. Am dderbyniad i'w gweddiau, a chymeradwyaeth i'w gwasanaeth annherffaith gyda Duw: "Ac angel arall a ddaeth, ac a safodd ger bron yr allor, a thusser aur ganddo; a rhoddwyd iddo arogl-darth lawer, fel yr offrymai efe gyda gweddiau yr holl saint ar yr allor aur, yr hon sydd ger bron yr orsedd-faingc. Ac fe aeth mŵg yr arogl-darth gyda gweddiau y saint i fynu ger bron Duw." Dat. 8. 3, 4.

5. Am fod y gair a moddion gras yn effeithiol er eu sancteiddiad: "Sancteiddia hwy yn dy wirionedd; dy air sydd wirionedd." Ioan 17. 17.

6. Y mae yn eiriol am eu cwbl ryddhad, eu gogoneddiad, a'u dyrchafiad ato ei hun i fwynhad cyflawn, perffaith, a thragywyddol o hono: "Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi: oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd." Ioan 17. 24.

*G. 7. Pa fath eiriolaeth yw eiriolaeth Crist?*

Digitized by Google

A. Eiriolaeth lwyddiannus iawn ydyw: "Deisyfiad ei galon a roddaist iddo: a dymuniad ei wefusau ni's gomeddaist." Sal. 21. 2.

G. 8. *Pa sicrwydd sydd y llwydda Crist yn ei eiriolaeth tros ei bobl?*

A. Oblegid mai yr un yw ewyllys y Tad a'i ewyllys yntau: "A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd i; cael o bawb sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol." Ioan 6. 40.

G. 9. *Yn mha bethau yr ymddengys rhagoroldeb Crist fel Offeiriad ar bob offeiriad arall?*

A. 1. Yn mawredd ei berson: "Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion a gwendid ynddynt, yn arch-offeiriaid; eithr gair y llŵ, yr hwn a fu wedi y gyfraith, sydd yn gwneuthur y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd." Heb. 7. 28.

2. Yn mawredd a rhagoroldeb yr hyn a wnaeth yn y cyflawniad o'i swydd: "Ac y mae pob offeiriad yn sefyll beunydd yn gwasanaethu, ac yn offrymu yn fynych yr un aberthau, y rhai ni allant byth ddileu pechodau: Eithr hwn, wedi offrymu un aberth, yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw." Heb. 10. 11, 12.

3. Yn ei barhâd yn ei swydd: "A'r rhai hyny yn wir, llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid o herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau: Ond hwn, gan ei fod yn aros yn dragywydd, sydd ag offeiriadaeth dragywyddol ganddo." Heb. 7. 23, 24.

---

## PEN. IX.

### AM FRENHINIAETH CRIST.

G. 1. *Pa beth a wna Crist fel Brenin?*

A. 1. Llywodraethu ac amddiffyn ei eglwys: "Yr Arglwydd yw ein Barnwr, yr Arglwydd yw ein Deddfwr,

Digitized by Google

yr Arglwydd yw ein Brenhin, efe a'n ceidw." Esa. 33. 22.

2. Darostwng a phlygu dynion, a'u gwneuthur yn ufudd ddeiliaid iddo ei hun: "Pobl a syrthiant tanat; o herwydd dy saethau llymion yn glynu yn nghalon gelynion y Brenhin." Sal. 45. 5.

3. Llwyr ddinystrio ei holl elynion a barhânt yn eu gwrthryfelgarwch i'w erbyn ef a'i lywodraeth: "A hefyd, fy ngelynion hyny, y rhai ni fynasent i mi deyrnasu arnynt, dygwch hwynt yma, a lleddwch ger fy mron i." Luc 19. 27.

G. 2. *Pa fath yw teyrnas Crist yn ei natur?*

A. Ysprydol ydyw: "Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn." Ioan 18. 36.

G. 3. *Pa le y mae rheolau a chyfreithiau Teyrnas Crist?*

A. Yn yr ysgrythyrau sanctaidd: "Rhwym y dystiolaeth, selia y gyfraith yn mhlith fy nysgyblion." Esa. 8. 16.

G. 4. *A oes gan neb ond Crist hawl i osod cyfreithiau yn yr eglwys?*

A. Nac oes, oblegid mai efe yn unig yw ei Phen a'i Brenhin: "Eithr na'ch galwer chwi Rabbi: canys un yw eich Athraw chwi, sef Crist; a chwithau oll brodyr ydych. Ac na elwch neb yn dad i chwi ar y ddaear, canys un Tad sydd i chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd. Ac na'ch galwer yn athrawon: canys un yw eich Athraw chwi, sef Crist." Math. 23. 8, 9, 10.

G. 5. *Ai ar ei eglwys yn unig y mae Crist yn Frenhin?*

A. Nage; y mae llywodraeth pob peth wedi ei ymddiried i'w law, i'w goruwch-reoli er lleshad ei eglwys: "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef, ac ar y ddaear. Megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddaist iddo, y rhoddai efe iddynt fywyd tragywyddol." Math. 28. 18. Ioan 17. 2.

G. 6. *A fydd Crist i aros yn ei swydd fel Brenhin byth?*



Digitized by Google

A. Bydd: "Ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd." Luc 1. 33.

G. 7. *Pa fath Frenhin yw Crist?*

A. Brenhin cyfiawn, heddychol a llariaidd: "Bydd lawen iawn, ti ferch Sion; a chrech-wêna, ha ferch Jerusalem. Wele dy Frenhin yn dyfod atat; cyfiawn ac achubydd yw efe; y mae efe yn llariaidd." Zec. 9. 9.

G. 8. *Beth yw ein dyledswydd ni tuag ato fel Brenhin?*

A. Ymostwng i'w lywodraeth, ac ufuddhau fel deiliaid ffyddlawn i'w gyfreithiau ef: "Gwrando, ferch, a gwel, a gostwng dy glust; ac anghofia dy bobl dy hun, a thŷ dy dad. A'r Brenhin a chwenych dy degwch: canys efe yw dy Iôr di; ymostwng dithau iddo ef." Sal. 45. 10, 11.

G. 9. *Pa bethau er ein haddysg a welwn oddiwrth hyn?*

A. 1. Mawr fraint eglwys a phobl Dduw, gan fod ganddynt y fath Frenhin doeth a galluog i'w llywodraethu a'u hamddiffyn: "Llawenhaed Israel yn yr hwn a'i gwnaeth; gorfoledded meibion Sion yn eu Brenhin." Sal. 149. 2.

2. Mai peth ofnadwy, yn y diwedd, fydd parhau yn elynion iddo, ac yn wrthryfelwyr yn ei erbyn: "Ei elynion ef a wisgaf â chywilydd; arno yntau y blodeua ei goron." Sal. 132. 18.

BRENHIN ac Offeiriad yw
'R Arglwydd Iesu,
Dyddiwr rhyngom ni â Duw,
I'n heddychu;
'Nawr mae'n eiriol gyda'r Tad,
Ac yn llwyddo,
Dadleu trosom werth ei waed,
Moliant iddo.

Digitized by Google

# PEN. X.

## Am ddarostyngiad a dyrchafiad Crist.

G. 1. *A ddaeth Crist i fod yn isel iawn wrth ddyfod yn Waredwr?*

A. Do, "Yn ddirmygedig a diystyraf o'r gwyr." Esa. 53. 3.

G. 2. *Yn mha bethau y gwelir ei ddarostyngiad?*

A. 1. Yn ei waith yn cymeryd y natur ddynol, yn ei gwaeledd a'i hiselder, i undeb â'i berson Dwyfol: "Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion." Phil. 2. 6, 7.

2. Yn ei enedigaeth: "A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i dododd yn y preseb." Luc 2. 7.

3. Yn nhylodi ac iselder amgylchiadau ei fywyd: "Y mae gan y llwynogod ffauau, a chan adar y nefoedd nythod, ond gan Fab y dyn nid oes lle y rhoddo ei ben i lawr." Luc 9. 58.

4. Yn ei waith yn myned tan y ddeddf: "Wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur tan y ddeddf." Gal. 4. 4.

5. Yn y gwaradwydd a'r dirmyg a ddyoddefodd gan ddynion: "Ystyriwch yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid." Heb. 12. 3.

6. Yn ei farwolaeth warthus ar y groes: "Yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd." Heb. 12. 2.

7. Yn ei gladdedigaeth, a'i arosiad am dri diwrnod yn y bedd: "Canys fel y bu Jonas dridiau a thair nos yn mol y morfil, felly y bydd Mab y dyn dridiau a thair nos yn nghalon y ddaear." Math. 12. 40.

Digitized by Google

*G. 3. Pa le sydd i'w ystyried fel y man isaf y bu Crist yn ei ddarostyngiad ynddo?*

A. Y bedd: "Darfod iddo ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear." Eph. 4. 9.

*G. 4. A ddyrchafwyd Crist ar ol ei ddarostyngiad mawr?*

A. Do: "Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth." Eph. 4. 10.

*G. 5. Pa le yn gyntaf y dechreuodd dyrchafiad Crist?*

A. Yn ei adgyfodiad o'r bedd: "Nid yw efe yma, efe a gyfododd, megis y dywedodd, Deuwch, gwelwch y fan lle gorweddodd yr Arglwydd." Math. 28. 6.

*G. 6. Pa bryd yr adgyfododd Iesu Grist?*

A. Yn fore iawn y trydydd dydd ar ol ei farwolaeth: "A'i gyfodi y trydydd dydd, yn ol yr ysgrythyrau." 1 Cor. 15. 4.

*G. 7. Beth oedd adgyfodiad Crist o'r bedd yn brofi?*

A. 1 Fod yr hyn oll a wnaeth fel Cyfryngwr yn foddhäol gan Dduw, canys efe a'i cyfododd ef: "Yr Iesu hwn a gyfododd Duw i fynu." Act. 2. 32.

2. Yn ei adgyfodiad o'r bedd eglurwyd mai Mab Duw a'r gwir Fessia ydoedd: "Ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol Yspryd Sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Rhuf. 1. 4.

3. Yn ei adgyfodiad ef y sicrhawyd y bydd adgyfodiad i'r meirw yn gyffredinol y dydd olaf: "Ac os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw, pa fodd y dywed rhai yn eich plith chwi nad oes adgyfodiad y meirw? canys os y meirw ni chyfodir, ni chyfodwyd Crist chwaith. Eithr yn awr, Crist a gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunasant." 1 Cor. 15. 12, 18. 20.

*G. 8. Pa hyd yr arosodd Crist ar y ddaear wedi adgyfodi?*

A. Deugain niwrnod yr arosodd gyda ei ddisgyblion: "I'r rhai hefyd yr ymddangosodd yn fyw wedi iddo ddyoddef, trwy lawer o arwyddion sicr; gan fod yn weledig iddynt tros ddeugain niwrnod, a dywedyd y

Digitized by Google

pethau a berthynent i deyrnas Dduw." Act. 1. 3.

G. 9. *Yn mha bethau yn mhelluch y mae dyrchafiad Crist yn gynwysedig?*

A. Yn ei esgyniad i'r nefoedd, ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw, a'i osodiad i fod yn farnwr byw a meirw.

G. 10. *Pa fath oedd esgyniad Crist i'r nefoedd?*

A. 1. Yr oedd yn esgyn fel Brenhin buddugoliaethus: "Pan ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed." Eph. 4. 8.

2. Yr oedd yn esgyn yn gyhoeddus a gorfoleddus: "Dyrchafodd Duw â llawen floedd, yr Arglwydd â sain udgorn." Sal. 47. 5.

3. Yr oedd yn esgyn fel Cynnrychiolwr ei bobl, a Phen ei eglwys: "Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi." Ioan 14. 2.

G. 11. *A gafodd Crist dderbyniad croesawus i'r nefoedd ar ei esgyniad?*

A. Do: "Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw hyd oni osodwyf dy elynion yn droed-faingc i'th draed." Sal. 101. 1.

G. 12. *Beth mae ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw yn arwyddo?*

A. 1. Arwydda ei fod wedi gorphen ei waith, a gorchfygu ei elynion: "Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo eistedd ar fy ngorsedd-faingc, megis y gorchyfygais inau, ac yr eisteddais gyd a'm Tad ar ei orsedd-faingc ef." Dat. 3. 21.

2. Arwydda fawredd ac uchder ei ddyrchafiad: "Wrth ba un o'r angylion y dywedodd efe un amser, Eistedd ar fy neheulaw?" Heb. 1. 3.

3. Arwydda ei eisteddiad ar ddeheulaw y Tad, ei fod yn ddyrchafedig goruwch pob creadur; a bod llywodraeth yr holl greadigaeth wedi ei hymddiried iddo: "Yr hwn sydd ar ddeheulaw Duw wedi myned i'r nef, a'r angelion, a'r awdurdodau, a'r galluoedd wedi eu darostwng iddo." 1 Pedr 3. 22.

Digitized by Google

G. 13. *A ddaw Crist o'r nefoedd eto?*

A. Daw, yn niwedd y byd, mewn rhwysg a gogoniant mawr, i farnu pawb yn ol eu gweithredoedd: "Canys Mab y dyn a ddaw yn ngogoniant ei Dad, gyd a'i angelion; yna y rhydd efe i bawb yn ol ei weithred." Math. 16. 27.

G. 14. *Pa bethau a welu'n ni yn narostyngiad a dyrchafiad Crist?*

A. 1. Fod Crist, yn ei ddarostyngiad, wedi gosod i ni esiampl ragorol o ddyoddefgarwch: "Oblegid Crist yntau a ddyoddefodd trosom ni, gan adael i ni esiampl fel y canlynech ei ol ef. Yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddyoddefodd, ni fygythiodd." 1 Pedr 2. 21—23.

2. Mai yr hyn a wnaeth Crist yn ei sefyllfa ddarostyngol, yn ei fywyd a'i farwolaeth, yw unig sylfaen gobaith i ni am gymod â Duw: "Canys, os pan oeddym yn elynion y'n heddychwyd â Duw, trwy farwolaeth ei Fab." Rhuf. 5. 10.

3. Mai dyrchafiad Crist i'r nefoedd, a'i eisteddiad ar ddeheulaw y Tad, a'i waith yn eiriol yno, yw sicrwydd parhad y saint mewn gras, a'u gogoneddiad yn y diwedd: "Mwy o lawer, wedi ein heddychu, y'n hachubir trwy ei fywyd ef." Rhuf. 5. 10.

---

## PEN. XI.

### Am waith yr Ysbryd Glan.

G. 1. *Pa beth fu y canlyniad o esgyniad Crist i'r nefoedd?*

A. Tywalltiad, neu anfoniad yr Yspryd Glân i'r ddaear: "Am hyny, wedi ei ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Yspryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych

Digitized by Google

chwi yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed." Act. 2. 33.

G. 2. *Beth ydyw gwaith neu swydd yr Yspryd Glân yn ein hiachawdwriaeth?*

A. 1. Argyhoeddi: "Pan ddêl, efe a argyhoedda y byd, o bechod, o gyfiawnder, ac o farn." Ioan 16. 8.

2. Gogoneddu Crist: "Efe a'm gogonedda i, canys efe a gymer o'r eiddo fi ac a'i mynega i chwi." Ioan 16. 14.

3. Sancteiddio ac adnewyddu pechadur ar ddelw Duw: "Eithr nyni oll âg wyneb agored, ydym yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw o ogoniant i ogoniant, megis gan Yspryd yr Arglwydd.'- 2 Cor. 3. 18.

4. Arwain a dyddanu y saint: "A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddyddanydd fel yr aroso gyda chwi yn dragywyddol." Ioan 14. 16.

5. Cynhorthwyo mewn gweddi: "A'r un ffunud y mae yr Yspryd hefyd yn cynhorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddïom, megis ag y dylem; eithr y mae yr Yspryd ei hun yn erfyn trosom ni âg ocheneidiau annrhaethadwy." Rhuf. 8. 26.

G. 3. *Pa fodd y mae yr Yspryd Glân yn argyhoeddi ac yn dychwelyd pechadur?*

A. Trwy agoryd llygaid ei feddwl, a'i oleuo i weled ei sefyllfa golledig wrth natur: "I agoryd eu llygaid, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw." Act. 26. 18.

G. 4. *Pa fodd y mae yr Yspryd Glân yn gogoneddu Crist?*

A. Trwy ddangos i'r pechadur ei angen am dano, a digonolrwydd ac addasrwydd Crist ar gyfer ei angen; a chymeryd o'r eiddo Crist a'i fynegu iddo: "Ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig anedig oddi wrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." Ioan 1. 14. a 16. 14.

Digitized by Google

G. 5. *Pa fodd y mae efe yn sancteiddio pechadur halogedig?*

A. Trwy gymhwysiad o waed Crist at yr enaid: "A gwaed Iesu Grist, ei Fab ef; sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod." 1 Ioan 1. 7.

G. 6. *A oes neb yn sanctaidd wrth natur?*

A. Nac oes: "Eithr yr ydym ni oll megis peth aflan, ac megis bratiau budron yw ein holl gyfiawnderau." Esa. 64. 6.

G. 7. *A all neb fod yn gadwedig heb eu sancteiddio?*

A. Na all: "Heb sancteiddrwydd, ni chaiff neb weled yr Arglwydd." Heb. 12. 14.

G. 8. *A all neb sancteiddio pechadur ond yr Yspryd Glân?*

A. Na all: "Myfi yw yr Arglwydd eich sancteiddrwydd." Lef. 22. 32.

G. 9. *Pwy y mae yr Yspryd Glân yn sancteiddio?*

A. Yr eglwys: "Y gwyr, cerwch eich gwragedd, megis y carodd Crist yr eglwys, ac y rhoddes ei hun drosti; Fel y sancteiddia efe hi, a'i glanhau â'r olchfa ddwfr trwy y gair." Eph. 5. 25. 26.

G. 10. *A ydyw yr Yspryd Glân yn arweinydd i'w bobl?*

A. Ydyw: "Canys y sawl a arweinir gan Yspryd Duw, y rhai hyny sydd blant i Dduw." Rhuf. 8. 14.

G. 11. *Pa ham y mae yr Yspryd Glân yn cael ei alw yn Ddyddanydd?*

A. 1. Am mai dyben ei holl oruchwiliaethau yw dwyn dyddanwch i'r enaid yn y diwedd: "Am hyny wele mi a'i denaf hi, ac a'i dygaf i'r anialwch, ac a ddywedaf wrth fodd ei chalon." Hos. 2. 14.

2. Am nad oes neb ond efe a all roddi gwir a thragywyddol ddyddanwch i'r enaid: Myfi, myfi yw yr hwn a'ch dyddana chwi; pwy wyt ti, fel yr ofnit ddyn yr hwn a fydd marw, a mab dyn yr hwn a wneir fel glaswelltyn?" Esa. 51. 12.

Digitized by Google

G. 12. *Pa fodd y mae yr Ysbryd Glân yn dyddanu y saint?*

A. 1. Trwy ddwyn ar gof iddynt eiriau Crist: "Eithr y Dyddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a leferais i wrthych." Ioan 14. 26.

2. Trwy ddwyn tystiolaeth iddynt o hawl yn Nuw fel eu Tad: "Y mae yr Ysbryd hwn yn cyd-dystiolaethu â'n hyspryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw." Rhuf. 8. 16.

3. Trwy eu nerthu a'u cadarnhau yn wyneb pob trallod a phrofedigaeth, trwy dywallt cariad Duw yn eu calonau: "Ac nid felly yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau; gan wybod fod gorthrymder yn peri dyoddefgarwch; A dyoddefgarwch, brofiad; a phrofiad, obaith; a gobaith ni chywilyddia, am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonau ni, trwy yr Yspryd Glân yr hwn a roddwyd i ni." Rhuf. 5. 3, 4, 5.

4. Trwy aros gyda hwynt, a phreswylio ynddynt, fel ernes o'u hetifeddiaeth dragywyddol: "Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd bryniad y pwrcas, i fawl ei ogoniant ef." Eph. 1. 4.

---

## PEN. XII.

### Am waith yr Ysbryd.

#### Yr ail ran.

G. 1. *Pa fodd y mae yr Ysbryd Glân yn cynnorthwyo mewn gweddi?*

A. Trwy nerthu yr enaid i weithredu ffydd ar Grist: "Ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu ond trwy yr Yspryd Glân." 1 Cor. 12. 3.

Digitized by Google

G. 2. *Trwy ba gyfryngau y mae yr Yspryd Glân yn gweithredu?*

A. 1. Y mae yn agor ac yn cyfnewid y galon mewn modd digyfrwng: "Yr hon yr agorodd yr Arglwydd ei chalon i ddal ar y pethau a leferid gan Paul." Act. 16. 14.

2. Mae yn arwain ac yn dyddanu trwy gyfrwng y gair ac ordinhadau yr efengyl: "Am hyny, mewn llawenydd y tynwch ddwfr o ffynhonau iachawdwriaeth." Esa. 12 3.

G. 3. *Pa fath weithydd yw yr Yspryd Glân?*

A. 1. Gweithredydd nerthol ac anorchfygol: "A pheth yw rhagorol fawredd ei nerth ef tuag atom ni y rhai y'm yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef." Eph. 1. 19.

2. Gweithredydd rhydd, yn gwbl yn ol ei feddwl a'i ewyllys ei hun: "Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno, a thi a glywi ei sŵn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned; felly y mae pob un a aned o'r Yspryd." Ioan 3. 8.

3. Y mae yn weithydd ag sydd yn sicr o ddwyn i ben y gwaith a ddechreuo: "Gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da, ei orphen hyd ddydd Iesu Grist." Phil. 1. 6.

G. 4. *Wrth ba enwau y gelwir y gwaith a weithredir gan yr Yspryd Glân, yn yr ysgrythyrau?*

A 1. *Creadigaeth newydd*, am fod teimladau ac ysgogiadau newyddion yn yr enaid, ac ymddygiad newydd yn y fuchedd mewn canlyniad: "Ei waith ef ydym, wedi ein crëu o newydd i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt." Eph. 2. 10.

2. *Genedigaeth newydd*, am fod tuedd ac archwaeth newydd yn y galon: "Fel rhai bychain newydd eni, chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynhyddoch trwyddo ef." 1 Pedr 2. 2.

3. *Calon ac yspryd newydd*; "A rhoddaf i chwi galon

Digitized by Google

newydd, ac yspryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi." Ezec. 36. 26.

4. *Adgyfodiad*, am fod y dyn yn dyfod yn fyw at y pethau yr oedd o'r blaen yn farw: "Wele fi yn agor eich beddau, fy mhobl, dygaf chwi hefyd o'ch beddau, a dygaf chwi i dir Israel." Ezec. 37. 12. Eph. 2. 1.

G. 5. *Pa rai ydynt ffrwythau neu effeithiau gwaith yr Yspryd Glân?*

A. "Eithr ffrwyth yr Yspryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, a dirwest." Gal. 5. 22.

G. 6. *Pa bethau sydd i ni i'w gweled er ein haddysg oddiwrth y pethau hyn?*

A. 1 Fod yr Yspryd Glân yn Berson Dwyfol cydradd â'r Tad a'r Mab, oddiwrth yr enwau a roddir arno; a'r gweithredoedd a briodolir iddo yn ngwaith mawr ein hiechydwriaeth.

2. Na ddychon i neb ei dderbyn fel Dyddanydd, heb ei dderbyn yn gyntaf fel Argyhoeddydd: "Yspryd y gwirionedd, yr hwn ni ddychon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef; ond chwi a'i hadwaenoch ef, o herwydd y mae efe yn aros gyda chwi, ac ynoch y bydd efe." Ioan 14. 17.

3. Dylem weddio llawer am ei gynhorthwyon i gyflawni pob dyledswydd grefyddol, a phob rhan o addo iad Duw: "Yspryd yw Duw, a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn Yspryd ac mewn gwirionedd." Ioan 4. 24.

4. Gwylio yn ofalus na b'o i ni ei dristhau, na'i ddiffodd yn ei gymhelliadau: "Ac na thristhewch Lân Yspryd Duw, trwy yr hwn y'ch seliwyd hyd ddydd prynedigaeth." Eph. 4. 3. 1 Thes. 5. 19.

Digitized by Google

# PEN. XIII.

## Am ffydd a Chyfiawnhad.

G. 1. *Pa fodd y mae i bechadur euog gael ei gyfiawnhau ger bron Duw?*

A. Trwy ffydd yn Nghrist yn unig: "Yr ydym ni gan hyny yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, heb weithredoedd y ddeddf." Rhuf. 3. 28.

G. 2. *A oes neb yn gyfiawn wrth natur?*

A. Nac oes: "Megis y mae yn ysgrifenedig, Nid oes neb cyafiwn, nac oes un." Rhuf. 3. 10.

G. 3. *A all neb gael ei gyfiawuhau trwy haeddiant ei weithredoedd ei hun?*

A. Na all: "Ac na chyfiawnheir neb trwy y ddeddf ger bron Duw, eglur yw; oblegid, y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd." Gal. 3. 11.

G. 4. *Beth yw ffydd gyfiawnhäol?*

A. Crediniaeth o'r dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab, ac ymorphwysiad yr enaid ar Grist yn y dystiolaeth, am fywyd ac iachawdwriaeth: "A hon yw y dystiolaeth; roddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol; a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef." 1 Ioan 5. 11.

G. 5. *Beth yw defnydd ein cyfiawnhâd?*

A. Ufudd-dod yr Arglwydd Iesu Grist yn ei fywyd a'i angeu: "Trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn." Rhuf. 5. 19.

G. 6. *Pwy sydd yn cyfiawnhâu?*

A. "Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau." Rhuf. 8. 33.

G. 7. *Pa fodd y mae Duw yn cyfiawnhau?*

A. 1. Yn rhad, heb ddim achos neu haeddiant yn y gwrthrychau: "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad, trwy ei ras ef." Rhuf. 3. 24.

2. Fel Barnwr cyfiawn y mae yn cyhoeddi rhyddhad i'r troseddwr oddiwrth y gosp ddyledus iddo am ei

Digitized by Google

bechod: Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn." Job 33. 24.

3. Trwy haeddedigaethau 'r Cyfryngwr yn unig y mae Duw yn cyfiawnhau: "Trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Rhuf. 3. 24.

G. 8. *Beth yw sail cyfrifiad o gyfiawnder Crist i bechadur?*

A. Undeb y pechadur â Christ, a ffydd ynddo: "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder. Eithr nid ysgrifenwyd hyny er ei fwyn ef yn unig, ddarfod ei gyfrif iddo, ond er ein mwyn ninau hefyd, i'r rhai y cyfrifir, y rhai ydym yn credu yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd ni o feirw." Rhuf. 4. 23, 24.

G. 9. *Ai ni chyfrif yr Arglwydd neb yn gyfiawn ond a fyddo mewn undeb â Christ?*

A. Na wna byth; canys, "Ni ddieuoga efe yr anwir." Nah. 1. 3.

G. 10. *A ydyw pawb sydd mewn undeb â Christ yn cael eu cyfiawnhau?*

A. Ydynt: "Fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Rhuf. 3. 26.

G. 11. *Beth sydd yn gynwysedig mewn cyfiawnhau*

A. 1. Rhad a llawn faddeuant o'r holl bechodau, "Megis y mae Dafydd hefyd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd, gan ddywedyd, Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau. Dedwydd yw y gŵr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo." Rhuf. 4. 6, 7, 8.

2. Gwisgo y person â chymeradwyaeth, a gwneuthur derbyniad o hono i ffafr a heddwch: "Ac efe a atebodd, ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn sefyll ger ei fron, gan ddywedyd, Cymerwch ymaith y dillad budron oddi am dano ef. Wrtho yntau hefyd y dywedodd, Wele, symudais dy anwiredd oddiwrthyt, a gwisgaf di hefyd â newid dillad." Zech. 3. 4.



Digitized by Google

G. 12. *Pa fath yw y cyfiawnder y mae y dyn yn dyfod i feddiant o hono, yn ei undeb â Christ?*

A. 1. Y mae yn gyfiawnder *Dwyfol:* "Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod trosom ni fel y'n gwnelid yn gyfiawnder Duw ynddo ef." 2 Cor. 5. 21.

2. Cyfiawnder *pur* a *difrycheulyd* ydyw: "A chaniatawyd iddi gael ei gwisgo â lliain main glân a dysglaer, canys y lliain main yw cyfiawnder y saint." Dat. 19. 8.

3. Y mae yn gyfiawnder *tragywyddol:* "Fy iachawdwriaeth i fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd." Esay 51. 6. a 8.

G. 13. *Pa sawl math ar gyfiawnder sydd gan y saint?*

A. Tri, sef 1. Cyfiawnder *personol,* neu gyfiawnder Crist er cymeradwyaeth eu personau gyda Duw: "Trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymeradwy yn yr anwylyd." Eph. 1. 6.

2. Cyfiawnder *egwyddorol;* sef calon onest a didwyll: "Crëa galon lân ynof, O Dduw, ac adnewydda yspryd uniawn o'm mewn." Sal. 51. 10.

3. Cyfiawnder *ymarferol;* sef, uniondeb a gonestrwydd yn eu holl fasnach bydol: "Llawen gan y cyfiawn wneuthur barn." Diar. 21. 15.

G. 14. *Wrth ba nodau y mae adnabod y cyfiawnion?*

A. 1. Y maent yn cilio oddiwrth ddrygioni: "Sarn y cyfiawn yw dychwelyd oddiwrth ddrwg." Diar. 16. 17.

2. Y maent yn gwneuthur cyfiawnder yn eu holl orchwylion: "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn." 1 Ioan 3. 7.

3. Y maent yn cymeryd gair Duw yn rheol yn mhob peth: "Eithr yr hwn a gadwo ei air ef, yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith. Wrth hyn y gwyddom ein bod ynddo ef." 1 Ioan 2. 5.

G. 15. *Pa rai ydynt ragorfreintiau y cyfiawnion?*

A. 1. Cymod â Duw: "Am hyny, gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw." Rhuf. 5. 1.

Digitized by Google

2. Y maent mewn sefyllfa o ddiogelwch sicr rhag digofaint a damnedigaeth yn y diwedd: "Mwy o awer ynte, a nyni yn awr wedi ein cyfiawnhau trwy e waed ef, y'n hachubir rhag digofaint trwyddo ef." Rhuf. 5. 9.

G. 16. *Pa bethau a ddysgir i ni yn nrych yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd?*

A. 1. Mai ffynhonell wreiddiol y fendith hon yn gystal a holl fendithion y cymod, yw rhad a phen-arglwyddiaethol ras Duw: "Trwy ras yr ydych yn gadwedig." Eph. 2. 5.

2. Nad oes i ni ddysgwyl am un drugaredd na bendith oddiar law Duw, ond trwy Grist, ac na chyfiawnheir neb ond y rhai a gredant ynddo, ac a fyddant mewn undeb âg ef."

3. Fod arnom fawr angen am oruchwyliaeth argyhoeddiadol yr Yspryd Glân, i ein lladd i ni ein hunain, ac i'r ddeddf, fel y delom i geisio bywyd a chyfiawnder, a phob peth yn Nghrist: "Ac y'm cair ynddo ef, heb ddim o'm cyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd." Phil. 3. 9.

4. Nad yw yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd yn tueddu i arwain i ben-rhyddid, ond yn y gwrthwyneb, yn cadarnhau rhwymau ufudd-dod i'r ddeddf, ac yn gymelliadol i fywyd duwiol: "Gan mai un Duw sydd, yr hwn a gyfiawnha yr enwaediad wrth ffydd, a'r dienwaediad trwy ffydd: Wrth hyny, a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na ato Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau y ddeddf." Rhuf. 3. 30, 31.

---

## PEN. XIV.

### Am y Cyfamod Gras.

G. 1. *Am ba sawl cyfamod y sonir yn y Bibl?*

A. Am ddau; sef y cyfamod gweithredoedd a'r cyfamod gras.

Digitized by Google

G. 2. *Beth oedd y cyfamod gweithredoedd?*

A. Y cytundeb oedd rhwng Duw ag Adda, a'i holl hâd ynddo, am fywyd a dedwyddwch ar yr amod o berffaith ufudd-dod.

G. 3. *Beth yw y cyfamod gras?*

A. Trefniad, neu sefydliad grasol Duw er tragywyddoldeb, mewn perthynas i gadwedigaeth dyn colledig.

G. 4. *Yn mha bethau y mae'r ddau gyfamod yn gwahaniaethu.*

A. 1. Ufudd-dod perffaith a difeius a ofynid ac a gymeradwyid yn unig yn y cyfamod gweithredoedd; eithr y mae ufudd-dod oddiar egwyddor gywir, er fod anmherffeithrwydd ynddo, yn gymeradwy a derbyniol tan y cyfamod gras: "Canys y mae Moses yn ysgrifenu am y cyfiawnder sydd o'r ddeddf, Mai y dyn a wnel y pethau hyny a fydd byw trwyddynt. Eithr y mae y cyfiawnder sydd o ffydd yn dywedyd fel hyn, Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nef? (hyny yw, dwyn Crist i wared oddiuchod) Neu, pwy a ddisgyn i'r dyfnder? (hyny yw, dwyn Crist drachefn i fynu oddiwrth y meirw.) Eithr pa beth y mae efe yn ei ddywedyd? Mae y gair yn agos atat, yn dy enau, ac yn dy galon.—Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi." Rhuf. 10. 5, 6, 7, 8, 9.

2. Ufudd-dod trwy nerth naturiol y dyn ei hun a ofynid yn y cyfamod gweithredoedd; eithr trwy y gras a'r nerth a dderbynir gan Grist y cyflawnir yr ufudd-dod gofynol yn y cyfamod gras: "Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu i." Phil. 4. 13.

3. Trwy ufudd-dod perffaith yr oedd cyfiawnhâd dyn yn y cyfamod gweithredoedd, eithr trwy ffydd yn Nghrist y mae cyfiawnhâd a phob bendith tan y cyfamod gras: "A'r ddeddf nid yw o ffydd, eithr, y dyn a wna y pethau hyny, a fydd byw ynddynt. Crist a'n llwyr

Digitized by Google

brynodd ni oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith trosom,—Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd, trwy Grist Iesu, fel y derbyniem yr addewid trwy ffydd," Gal. 3. 12, 13, 14.

4. Yr oedd y pechod lleiaf yn dwyn marwolaeth a damnedigaeth yn y cyfamod gweithredoedd;—eithr gwahoddir y pechaduriaid gwaethaf i dderbyn gras a maddeuant yn y cyfamod gras: "Y farn a ddaeth o un camwedd i gondemniad, eithr y dawn sydd o gamweddau lawer i gyfiawnhad." Rhuf. 5. 16.

5. Adda oedd y pen yn y cyfamod gweithredoedd, eithr Crist yw y pen yn y cyfamod gras: "Oblegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yn Nghrist y bywheir pawb." 1 Cor. 15. 22.

G. 5. *Paham y gelwir y cyfamod hwn yn gyfamod gras?*

A. 1. Am mai Duw yn ei ras a'i trefnodd, ac a'i lluniaethodd.

2. Am ei fod yn cynwys pob gras a bendith ag sydd yn angen arnom ni, bechaduriaid: "Cyfamod tragywyddol a wnaeth efe â ni, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; canys fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw." 2 Sam. 25. 5.

3. Am fod diogelwch cyflwr yr holl hâd yn y cyfamod hwn, yn sefyll, nid ar eu nerth, a'u dianwadalwch eu hunain, ond ar ffyddlondeb a gras Duw: "Os ei feibion a adawant fy nghyfraith, ac ni rodiant yn fy marnedigaethau; os fy neddfau a halogant, a'm gorchymynion ni chadwant; yna mi a ymwelaf â'u camwedd â gwialen, ac â'u hanwireddau â ffrewyllau. Ond ni thóraf fy nhrugaredd oddiwrtho, ac ni phallaf o'm gwirionedd. Ni thóraf fy nghyfamod, ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau." Sal. 89. 30, 31, 32, 33, 34.

4. Am mai mawl a gogoniant gras Duw oedd mewn golwg yn flaenaf wrth ei luniaethu, ac fydd diwedd ei holl oruchwyliaeth: "Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlon-

Digitized by Google

rwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei ras ef." Eph. 1. 5, 6.

G. 6. *Pa fodd y mae y cyfamod gras wedi ei gadarnhau?*

A. 1 Trwy lŵ Duw: "Yn yr hyn, Duw yn ewyllysio dangos yn helaethach i etifeddion yr addewid, ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lŵ.' Heb. 6. 17.

2. Cadarnhawyd a chyssegrwyd ef trwy waed a marwolaeth Crist: "Pa faint mwy cospedigaeth, dybygwch chwi, y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn aflan waed y cyfamod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef." Heb. 10. 29.

3. Y mae yn cael ei selio gan yr Yspryd Glân: "A'r hwn sydd yn ein cadarnhau ni gyda chwi yn Nghrist, ac a'n heneiniodd ni, yw Duw: "Yr hwn hefyd a'n seliodd, ac a roes ernes yr Yspryd yn ein calonau." 2 Cor. 1. 21, 22.

G. 7. *Pa rai yw y bendithion a addewir yn y cyfamod hwn?*

A. 1. Y mae yr Arglwydd yn addaw rhoddi ei hunan yn Dduw i'w bobl ynddo, a'u cymeryd hwythau i fod yn eiddo priodol iddo ei hun: "Ond dyma y cyfamod a wnaf fi â thŷ Israel ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd: Myfi a roddaf fy nghyfraith o'u mewn hwynt, ac a'i hysgrifenaf hi yn eu calonau hwynt; A mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant yn bobl i mi." Jer. 31. 33.

2. Y mae Crist a'r cyflawnder sydd ynddo yn cael ei addaw yn etifeddiaeth i holl hâd y cyfamod hwn: "Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfamod newydd, megis trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd tan y cyfamod cyntaf, y cai y rhai a elwid dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol." Heb. 9. 15.

3. Y mae yr Yspryd Glân fel sancteiddydd, arweinydd a Dyddanydd, y gair a holl ordinhadau yr efengyl, er eu cynal a'u maethu, yn cael eu haddaw a'u rhoddi yn y cyfamod hwn: "A minau, dyma fy nghyfamod â

Digitized by Google

hwynt, medd yr Arglwydd; Fy Ysbryd yr hwn sydd arnat a'm geiriau y rhai a osodais yn dy enau, ni chiliant o'th enau, nac o enau dy hâd, nac o enau hâd dy hâd, medd yr Arglwydd, o hyn allan byth." Esa. 59. 21.

4. Y mae yr hyn a fyddo yn angenrheidiol o drugareddau y bywyd hwn yn addawedig gan yr Arglwydd i'w bobl ynddo: "Ei fara a roddir iddo, a'i ddwfr fydd sicr." Esa. 33. 16. Heb. 13. 5.

5. Y mae adgyfodiad o'r bedd i fwynhau bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw yn cael ei addaw hefyd: "A mi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf." "A minau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol." Ioan 6. 40. a 10. 28.

G. 8. *Pa bethau yn mhellach a ddysgir i ni oddiwrth hyn?*

A. 1. Dylem ryfeddu graslonrwydd Duw, yn ei waith yn llunaethu y fath gyfamod gogoneddus, a'r fath ddarpariadau ynddo i godi, ymgeleddu ac achub gwrthrychau mor annheilwng a thruenus: "Gwnaeth gofio ei ryfeddodau; graslawn a thrugarog yw yr Arglwydd. Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofnant ef: efe a gofia ei gyfamod yn dragywydd." Sal. 111. 4, 5.

2. Mawr fraint deiliaid ysprydol y cyfamod hwn: "Oblegid pa genedl mor fawr yr hon y mae Duw iddi yn neshau ati, fel yr Arglwydd ein Duw ni, yn mhob dim y galwom arno." Deut. 4. 7.

3. Mawr dlodi, a gresynoldeb cyflwr y rhai nad oes ganddynt hawl yn rhagorfreintiau y cyfamod hwn: "Eich bod chwi y pryd hwnw heb Grist, wedi eich dyeithrio oddiwrth wladwriaeth Israel, ac yn estroniaid oddiwrth amodau yr addewid, heb obaith genych, ac heb Dduw yn y byd." Eph. 2. 12.

4. Y gweddai fod ein llafur penaf am adnabyddiaeth o Grist, ac undeb âg ef, fel y caffom hawl trwyddo yn holl ragorfreintiau y cyfamod gras: "Llafuriwch, nid

Digitized by Google

am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol." Ioan 6. 27.

---

## PEN. XV.

### Am Foddion Gras.

G. 1. *Pa rai ydynt yr ordinhadau, neu y moddion o ras a osododd yr Arglwydd i ni ymarfer â hwy er ein hiechydwriaeth?*

A. 1. Chwilio a darllen yr ysgrythyrau: "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd a darllenwch." Esa. 34. 16.

2. Gwrando yr efengyl: "Y neb sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed." Math. 11. 15.

3. Gweddio yn wastadol: "Ac efe a ddywedodd hefyd ddameg wrthynt, fod yn rhaid gweddio yn wastad ac heb ddiffygio." Luc 18. 1.

4. Ymarferiad parchus o'r sacramentau.

G. 2. *Pa fodd y mae i ni chwilio a darllen yr ysgrythyrau?*

A. 1. Dylem ymdrechu eu darllen yn eglur, ac yn ddeallus: "A hwy a ddarllenasant yn eglur yn y llyfr, yn nghyfraith Dduw; gan osod allan y synwyr wrth ddarllen." Ezra. 8. 9.

2. Wrth eu chwilio a'u darllen, dylem eu hystyried yn ddifrifol, gan ymdrechu adnabod meddwl yr Arglwydd ynddynt: "Y neb a ddarlleno ystyried." Math. 24. 15.

3. Eu chwilio beunydd, a myfyrio ynddynt yn wastadol: "Nac ymadawed llyfr y gyfraith hon o'th enau, eithr myfyria ynddo ddydd a nos; fel y cedwych ar wneuthur yn ol yr hyn oll sydd yn ysgifenedig ynddo; canys yna y llwyddi yn dy ffyrdd, ac yna y ffyni." Jos. 1. 8.

G. 3. *Pa ham y dylem chwilio a darllen yr ysgrythyrau?*

Digitized by Google

A. 1. Am mai geiriau Duw ydynt: "Yr holl ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw." 2 Tim. 3. 16.

2. Am mai wrthym ni y mae efe yn llefaru ynddynt: "Dangosodd efe it' ddyn, beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw." Mic. 6. 8.

3. Oblegid mai hwy sydd yn tystiolaethu am Grist, ac yn dangos y ffordd i gael bywyd tragywyddol:—"Chwiliwch yr ysgrythyrau, canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol: a hwynt hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi." Ioan 5. 34.

4. Am mai yn eu hol hwy y'n bernir yn y dydd olaf: "Y gair a leferais i, hwnw a'i barna ef yn y dydd diweddaf." Ioan 12. 48.

G. 4. *Pa fodd y mae i ni wrando yr efengyl i gael budd a llesad ysprydol oddiwrthi?*

A. 1. Rhaid i ni edrych, a gwrando arni fel cenhadwri oddiwrth Dduw: "Oblegid hyn yr ydym ninau hefyd yn diolch i Dduw yn ddibaid, o herwydd i chwi pan dderbyniasoch air Duw, yr hwn a glywsoch genym ni, ei dderbyn ef nid fel gair dyn, eithr fel y mae yn wir yn air Duw." 1 Thes. 2. 13.

2. Ei gwrando a'i gwneuthur: "A byddwch wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawyr yn unig." Iago 1. 22.

3. Dal ar yr hyn a wrandawom: "Am hyny mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag i ni un amser eu gollwng hwy i golli." Heb. 2. 1.

4. Gwrando yn grediniol: "Edifarhewch a chredwch yr efengyl." Marc 1. 15.

G. 5. *Pa bethau sy yn profi ei bod yn ddyledswydd arnom wrando, dal ar, credu a gwneuthur yr efengyl?*

A. 1. Dwyfol darddiad ei gweinidogaeth: "Eithr yr ydwyf yn hyspysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethwyd genyf fi, nad yw hi ddynol, Canys nid gan

Digitized by Google

ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd; eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist." Gal. 1. 11, 12.

2. O herwydd y berthynas sydd rhwng yr efengyl â ni: "Arnoch chwi, wyr, yr wyf fi yn galw; ac at feibion dynion y mae fy llais." Diar. 8. 4.

3. O herwydd mai yn ol ein hymddygiad tuag at yr efengyl y bydd ein sefyllfa dragywyddol yn troi: "Gwrandewch a bydd byw eich enaid. A phwy bynag ni dderbynio, ac ni wrandawo ar eich geiriau, pan ymadawoch o'r tŷ hwnw, neu o'r ddinas hono, ysgydwch y llwch oddiwrth eich traed. Yn wir, meddaf i chwi, esmwythach fydd i dir y Sodomiaid a'r Gomoriaid yn y farn, nac i'r ddinas hono." Esa. 55. 2. Math. 10. 14, 15.

G. 6. *Pa fodd y mae i ni weddio?*

A. 1. Yn enw Iesu Grist: "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw i, efe a'u rhydd i chwi." Ioan 16. 23.

2. Yn yr Yspryd Glân: "Eithr chwychwi, anwylyd, gan eich adeiladu eich hunain ar eich sancteiddiolaf ffydd, a gweddio yn yr Yspryd Glân." Judas 20.

3. Mewn ffydd, ac heb ammeu dim: "Eithr gofyned mewn ffydd, heb ammeu dim; canys yr hwn sydd yn ammeu, sydd gyffelyb i dòn y môr a chwelir ac a deflir gan y gwynt: canys na feddylied y dyn hwnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd." Iago 1. 6, 7.

4. Mewn yspryd maddeugar, a pherffaith dangnefedd rhyngom â phob dyn: "A phan safoch i weddio, maddeuwch, o bydd genych ddim yn erbyn neb; fel y maddeuo eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd i chwithau eich camweddau." Marc 11. 15.

G. 7. *Beth yw gweddi?*

A. Tywalltiad dymuniadau y galon ger bron yr Arglwydd: "Tywelltwch eich calon ger ei fron ef." Sal. 62. 8.

G. 8. *Beth sydd yn gynwysedig mewn gweddi?*

A. 1. Cydnabyddiaeth o fawredd Duw a'i ragoroldeb ar bawb arall: "Nid oes fel tydi yn mysg y duwiau, O

Digitized by Google

Arglwydd; na gweithredoedd fel dy weithredoedd di. Yr holl genhedloedd y rhai a wnaethost a ddeuant, ger dy fron di, O Arglwydd; ac a ogoneddant dy enw. Canys ydwyt fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau; ti yn unig wyt Dduw." Sal. 86. 8, 9, 10.

2. Cydnabyddiaeth o'n gwaeledd, a'n anheilyngdod, a'n trueni ein hunain: "Wele, gwael ydwyf, pa beth a atebaf i ti? mi a osodaf fy llaw ar fy ngenau." Job 40. 4. Sal 32. 5.

3. Y mae gweddi yn gynwysedig yn fwyaf neillduol, mewn ymbiliau a deisyfiad at Dduw, am faddeuant, a phob bendith angenrheidiol arall: "Cymerwch eiriau gyda chwi, a dychwelwch at yr Arglwydd, a dywedwch wrtho, Maddeu yr holl anwiredd; derbyn ni yn ddaionus, a thalwn it' loi ein gwefusau." Hos. 14. 2.

4. Cydnabyddiaeth ddiolchgar i'r Arglwydd am ei ddaioni a'i drugareddau: "Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi? Phiol iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf." Sal. 116. 12, 13.

G. 9. *Pa anogaethau ydym yn gael yn yr ysgrythyrau er calondid i ymarfer â'r ddyledswydd hon?*

A. 1. Y mae Duw yn ein gwahodd i neshau ato, fel plant at eu tad: "Oni lefi di arnaf fi o hyn allan, Fy nhad, ti yw tywysog fy ieuengctid? Jer. 3. 4.

2. Y mae wedi addaw ein gwrando: "Efe a eilw arnaf, a mi a'i gwrandawaf." Sal. 91. 15.

3. Y mae y llwyddiant a gafodd eraill gyda'r gwaith, yn anogaeth ac yn galondid i ninau ymarfer âg ef: "Moses ac Aaron yn mhlith ei offeiriaid ef; Samuel yn mysg y rhai a alwant ar ei enw; galwasant ar yr Arglwydd, ac efe a'u gwrandawodd hwynt." Sal. 50. 5.

G. 10. *Pa bethau er ein haddysg a allwn ni gael oddiwrth y pethau uchod?*

A. 1. Bod yr Arglwydd wedi cysylltu y moddion a'r dybenion yn anwahanol â'u gilydd; fel na all neb gyr-

Digitized by Google

haeddyd y dyben heb ymarfer â'r moddion: "Chwennychu yr ydych, ac nid ydych yn cael; cynfigenu yr ydych, ac eiddigeddu, ac nid ydych yn gallu cyrhaeddyd; ymladd a rhyfela yr ydych, ond nid ydych yn cael, am nad ydych yn gofyn." Iago 4. 2.

2. Fod y drefn yma o eiddo Duw, i gyfranu ei ras a'i fendithion trwy gyfryngau moddion, yn un addas a doeth, er ein dwyn ni i weled gwerth pethau ysprydol a'n deffroi i lafurio am danynt: "Ië, os gwaeddi ar ol gwybodaeth, os cyfodi dy lef am ddeall; os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel am drysorau cuddiedig; yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd, ac y cei wybodaeth o Dduw." Diar. 2. 3, 4, 5.

3. Gwelwn fawr ddaioni yr Arglwydd yn ei waith yn sefydlu moddion iachawdwriaeth mor agos atom, ac mor hawdd i bawb ymarfer â hwynt: "Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi." Math. 7. 7.

## PEN. XVI.

### Am Fedydd.

G. 1. *Pa sawl sacrament a ordeiniodd Crist yn ei eglwys?*

A. Dau, sef bedydd a swper yr Arglwydd.

G. 2. *Beth oedd dyben Crist yn sefydliad y sacramentau hyn?*

A. 1. I fod yn arwyddion i'n llygaid o bethau Ysprydol, fel y'n deffröid i ystyriaeth fanylach yn eu cylch, ac i fod yn fanteision i ni eu deall yn well.

2. I fod yn arwyddion cyfamod rhwng Duw a'i bobl, megis ag yr oedd yr enwaediad a'r pasg gynt: "Dyma fy ngyfamod a gedwch rhyngof fi a chwi, a'th hâd ar dy ol di: enwaeder pob gwrryw i chwi." Gen. 17. 10. Exod. 13. 9.

3. I fod yn goffadwriaethau yn yr eglwys hyd ddiwedd y byd, am yr amser y bu ei Phen a'i Brenhin ynddi yn

sefydlu trefn ac ordinhadau ei dŷ: "Gwnewch hyn er côf am danaf." Luc 22. 19.

G. 3. *Beth yw bedydd?*

A. Taenelliad â dwfr, yn enw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân." Math. 28. 19.

G. 4. *Pwy sydd i'w bedyddio?*

A. Babanod, a rhai mewn oedran na fedyddiwyd yn eu babandod: "Canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant." Act. 2. 39.

G. 5. *Pa fodd y gellir profi fod babanod i'w bedyddio?*

A. 1. O herwydd mai yr un yw eglwys a chyfamod Duw tan bob goruchwyliaeth, ond bod trefn yr eglwys a seliau y cyfamod wedi eu newid; gan hyny rhaid mai yr unrhyw yw deiliaid bedydd yn awr a deiliaid yr enwaediad gynt, yr hwn oedd arwydd neu sel y cyfamod gras tan yr oruchwyliaeth gysgodol: "Ac efe a gymerth arwydd yr enwaediad yn insel cyfiawnder y ffydd." Rhuf. 4. 11.

2. Ymddangosodd Crist fel angel neu genhad y cyfamod, i gadarnhau yr addewidion a wnaethid i'r tadau tan yr hen oruchwyliaeth; yn yr hwn gyfamod yr oedd babanod yn cael eu cymeryd i mewn, ac nis gallasai, ie, Crist ei hun, eu bwrw allan, heb ddiddymu y cyfamod, a dirymu yr addewidion yn hytrach na'u cadarhau: "Ac yr wyf yn dywedyd, wneuthur Iesu Grist yn weinidog i'r enwaediad, er mwyn gwirionedd Duw, er mwyn cadarnhau yr addewidion a wnaethpwyd i'r tadau." Rhuf. 15. 8.

3. Y mae babanod, yn gystal a rhai mewn oedran, yn sefyll mewn angen am fendithion yr iachawdwiaeth, ac yn ddeiliaid cymhwys o honynt; ac os ydynt yn gymhwys i gyfranogi o'r sylwedd, rhaid eu bod yr un modd yn gymhwys o'r arwydd: "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Duw." Marc 10. 14.

4. Pe na byddai babanod i'w bedyddio, byddai breint-



Digitized by Google

ian yr eglwys yn llai tan yr oruchwyliaeth newydd nag oeddynt tan yr hen; ond yn hytrach, amlwg yw, mai eu chwanegu a'u helaethu a gawsant: "Ond yn awr, efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, o gymaint ag y mae yn gyfryngwr cyfamod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell." Heb. 8. 6.

G. 6. *Pa fodd y gellir profi mai taenellu ydyw'r iawn ddull o fedyddio?*

A. 1. Y mae yr hyn a arwyddoceir yn y bedydd yn cael ei osod allan trwy yr ymadrodd taenellu: "Etholedigion yn rhagwybodaeth Duw Dad trwy santeiddiad yr Yspryd, i ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist." 1 Pedr 1. 2. Esa. 52. 15. Ezec. 36. 25.

2. Bedyddiwyd amryw yn nyddiau yr apostolion mewn tai, a rhai yn y nos, y lle, a'r pryd, nad oedd, yn ddiameu, gyfleustra ond i'w taenellu." Act. 9. 18. a 16. 33.

3. Sicr yw na sefydlodd Crist yr un ordinhad yn ei dŷ, ag y byddai y gweinyddiad o honi mewn dim yn anweddaidd, nac yn beryglus, nac yn ammhosibl mewn un amgylchiad: "Canys, (eb efe) fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn." Math. 11. 30.

4. Wrth daenellu yr ydym yn rhoddi y golygiad cywiraf ar drefn iachawdwriaeth yn ngweinyddiad ei bendithion; sef, gweinyddu, neu gymhwyso y dwfr at y bedyddiedig, ac nid y bedyddiedig at y dwfr: "Taenellaf arnoch ddwfr glân fel y byddoch lân." Ezec. 36. 25.

G. 7. *Pa bethau ydym yn broffesu wrth ddwyn ein plant i'w bedyddio?*

A. 1. Eu bod yn halogedig wrth natur: "Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Sal. 51. 5.

2. Ein bod yn cymeradwyo trefn Duw i'w glanhau, gan ein bod yn dwyn ein plant tan yr arwydd o honi.

3. Wrth eu cyflwyno i'r Arglwydd trwy fedydd, yr ydym yn cydnabod mai ei eiddo ydynt, ac yn myned tan rwymedigaeth newydd i'w magu iddo.

Digitized by Google

G. 8. *Beth y mae bedyddio yn enw y tri pherson yn nghyd?*

A. Arwydda fod pob un o honynt yn wir Dduw, a'u bod yn cyd-weithredu yn ein hiechydwriaeth; ac, mai Duw yn dri pherson yw gwrthrych ein haddoliad.

G. 9. *Beth yw dyledswydd y rhai a fedyddiwyd pan y delont i oedran a synwyr i farnu trostynt eu hunain?*

A 1. Cyflwyno eu hunain i Dduw, ac adnewyddu cyfamod eu hieuengctyd âg ef: "Oni lefi di arnaf fi o hyn allan, Fy nhad, ti yw tywysog fy ieuengctyd." Jer. 3. 4.

2. Ymaflyd yn holl ragorfreintiau cyfamod Duw, y rhai daugoswyd wrth eu bedyddio bod ganddynt hawl iddynt.

3. Marweiddio pechod, a dilyn sancteiddrwydd: "Claddwyd ni gyd âg ef trwy fedydd i farwolaeth; fel, megis ag y cyfododd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninau hefyd mewn newydd-deb buchedd." Rhuf. 6. 4.

## PEN. XVII.

### AM SWPER YR ARGLWYDD.

G 1. *Pa un yw y sacrament arall a ordeiniodd Crist?*

A. Y swper sanctaidd.

G. 2. *Pa bryd y sefydlodd Crist yr ordinhad hon?*

A. Y nos y bradychwyd ef: "Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi: Bod i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymeryd bara, &c." 1 Cor. 11. 23.

G. 3. *Beth yw yr arwyddion, neu yr elfenau a ddefnyddir yn y sacrament hwn?*

A. Bara a gwin: "A'r Iesu gymerth y bara, ac wedi iddo fendithio, efe a'i torodd.—Ac wedi iddo gymeryd y

Digitized by Google

cwpan, a diolch, efe a'i rhoddes iddynt.—Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden, hyd y dydd hwnw pan yfwyf ef gyda chwi yn newydd yn nheyrnas fy Nhad." Math. 26. rhanau o 26, 27, 29.

G. 4 *Beth a arwyddoceir trwy y bara a'r gwin?*

A. Corph a gwaed Crist: "Phïol y fendith, yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist ydyw? y bara yr ydym yn ei dóri, onid cymmun corph Crist ydyw?" 1 Cor. 10. 16.

G. 5. *Beth y mae toriad y bara yn arwyddocau?*

A. Drylliad corph Iesu Grist yn ei ddioddefiadau ar y groes: "Hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorir trosoch." 1 Cor. 11. 24.

G. 6. *Beth y mae tywalltiad y gwin yn arwyddocau?*

A. Tywalltiad gwaed Iesu Grist: "Hwn yw y Testament newydd yn fy ngwaed i, yr hwn yr ydys yn ei dywallt trosoch." Luc 22. 20.

G. 7. *Pa leshad ysprydol a dderbynia y ffyddloniaid yn yr ordinhad hon?*

A. 1. Adfywiad i eu grasusau trwy gymdeithasu â Christ: "Tra yw y brenhin ar ei fwrdd, fy nardis i a rydd ei arogl." Can. 1. 12.

2. Cysuron a nerth i'w heneidiau wrth ymborthi trwy ffydd ar gnawd a gwaed Crist yn yr ordinhad hon; "Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir." Ioan 6. 55.

3. Wrth adnewyddu eu cyfamod â Duw yn yr ordinhâd hon, y maent yn cael tystiolaeth newydd o'u hawl yn Nghrist, a bywyd tragywyddol: "Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragywyddol." Ioan 6. 54.

G. 8. *Pa fodd y mae i ni ddyfod at fwrdd yr Arglwydd?*

A. mewn hunan-ymholiad: "Eithr holed dyn ef ei hun, ac felly bwytaed o'r bara, ac yfed o'r cwpan." 1 Cor. 11. 28.

Digitized by Google

G. 9. *Am ba bethau y dylem holi ein hunain cyn cyfranogi o'r swpper sanctaidd?*

A. 1. A oes genym iawn farn, a chywir olygiadau ar yr ordinhad o ran ei natur, a'i dyben, rhag i ni fwyta ac yfed yn annheilwng: "Canys yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corph yr Arglwydd." 1 Cor. 11. 29.

2. A ddaethom yn wirioneddol i weled ein colledigaeth ynom ein hunain, ac i iawn deimlad o'n hangen am Grist, ac i gyfrif pob peth arall yn wael a di werth mewn cydmariaeth iddo ef: "Ie, yn ddiamen, yr wyf hefyd yn cyfrif pob peth yn golled, o herwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd, er mwyn yr hwn y'm colledwyd yn mhob peth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dòm fel yr enillwyf Grist." Phil. 3. 8.

3. A ydym yn wir alarus am ein pechodau a aethant heibio: "A hwy a edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant, galarant hefyd am dano ef fel un yn galaru am ei unig-anedig, ac ymofidiant, megis un yn gofidio am ei gyntaf-anedig." Zech. 12. 10.

4. A ydym mewn cymod a heddwch â phob dŷn: "Gan hyny, os dygi dy rodd i'r allor, ac yno ddyfod i'th gôf fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn, gâd yno dy rodd ger bron yr allor, a dôs ymaith; yn gyntaf cymoder di â'th frawd, ac yna tyred ac offrwm dy rodd." Math. 5. 23, 24.

5. A ydym ni yn diffuant amcanu dylyn buchedd newydd: "O gwnaethum anwiredd, ni wnaf mwy." Job 34. 32.

G. 10. *Pa ham y dylem ddyfod i swper yr Arglwydd?*

A. 1. I ddangos ein parch a'n hufudd-dod i orchymyn Crist; yr hwn a ddywedodd, "Gwnewch hyn er coffa am danaf," 1 Cor. 11. 24.

2. I wneuthur arddeliad cyhoeddus o Grist a'i groes, fel unig sylfaen ein gobaith, ac unig ymffrost ein bywyd:

Digitized by Google

"Eithr na ato Duw i mi ymffrostio ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist." Gal. 6. 14.

3. I dalu diolchgar gydnabyddiaeth i'r Arglwydd am holl ddoniau y prynedigaeth, ac i gyflawni ein haddunedau: "Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi? Phiol iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf. Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd yn awr yn ngwydd ei holl bobl ef." Sal. 116. 12, 13, 14.

G. 11. *A ydyw yn bechadurus peidio dyfod i swper yr Arglwydd?*

A. Ydyw, yn bechadurus iawn, oblegid yn 1. fod gorchymyn Crist yn cael ei esgeuluso, ei farwolaeth a'i waed yn cael eu dibrisio, tra y byddo hyn yn cael ei adael heb ymarfer âg ef: "Pa faint mwy cospedigaeth (dybygwch chwi) y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn aflan waed y cyfamod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef, ac a ddifenwodd Yspryd y gras." Heb. 10. 29.

2. Oblegid bod y rhai sydd yn esgeuluso yr ordinhad hon, yn gwrthod dyfod i gyfamod â Duw, yn dewis Satan yn ei le, yn dewis y byd o flaen yr eglwys, ac yn caru pechod yn fwy na Christ.

G. 12. *Pa bethau sydd i ni gael er ein haddysg yn mhellach oddiwrth hyn?*

A. 1. Diolchgar gydnabod daioni Duw yn eglurhau i ni ei gyfamod trwy roddi 'r arwyddion o hono o flaen ein llygaid.

2. Y dylem ochelyd ymarfer âg un o ordinhadau sanctaidd tŷ yr Arglwydd yn anystyriol o'r pwys a'r gwerth sydd ynddynt, ac yn anwybodus am eu natur a'u dybenion, ac heb fwriad diffuant i ymadael â phob pechod: "Ymlanhewch, y rhai a ddygwch lestri yr Arglwydd." Esa. 52. 11.

Dyma gariad fel y moroedd,
Tosturiaethau fel y lli,
Tywysog nef ei hun yn marw,
Marw i brynu'n bywyd ni!

Digitized by Google

Pwy all beidio cofio am dano?
Pwy all beidio traethu 'i glod?
Dyma weithred nad â'n anghof
Tra b'o nefoedd wen yn bod.

---

## PEN XVIII.

### AM WAHANOL DDYLEDSWYDDAU.

G. 1. *Beth yw y rheol a roddes yr Arglwydd i ni ymddwyn a byw wrthi?*

A. Ei gyfraith a'i air sanctaidd: "At y gyfraith ac at y dystiolaeth: oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt." Esa. 8. 20.

G. 2. *Beth yw ein dyledswydd ni tuag at Dduw?*

A. Ei ofni, a chadw ei orchymynion: "Swm y cwbl a glybuwyd yw, Ofna Dduw, a chadw ei orchymynion: canys hyn yw holl ddyled dyn." Preg. 12. 13.

G. 3. *Beth y mae hyn yn ei gynwys?*

A. 1. Peidio cymeryd, na chydnabod neb arall yn Dduw ond efe yn unig: "Na fydded it' dduwiau eraill ger fy mron i." Ecs. 20. 3.

2. Peidio gwneuthur un ddelw, na llun dim i'w addoli, ond ei wasanaethu a'i addoli ef yn ol rheol a chyfarwyddyd ei air: "Na wna it' ddelw gerfiedig, na llun dim a'r sydd yn y nefoedd uchod, nac a'r sydd yn y ddaear isod, nac a'r sydd yn y dwfr tan y ddaear. Nac ymgryma iddynt, ac na wasanaetha hwynt: oblegid myfi, yr Arglwydd dy Dduw, wyf Dduw eiddigus." Ecs. 20. 4, 5.

3. Parchu ac anrhydeddu ei enw: "Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer." Ecs 20. 7.

4. Neillduo rhan o'n hamser i'w addoli ef: "Cofia y dydd Sabboth i'w sancteiddio ef." Ecs. 20. 8.

G. 4. *Pa rai ydynt sylfeini ein dyledswyddau ni tuag at Dduw?*

A. 1. Ein perthynas âg ef fel ein Creawdwr: "Gwy-

Digitized by Google

byddwch mai yr Arglwydd sydd Dduw, efe a'n gwnaeth ni, ac nid ni ein hunain: ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa." Sal. 100. 3.

2. Ein hymddibyniad *arno* fel ein Cynhaliwr: "Wrthyt ti y'm cynhaliwyd o'r bru; ti a'm tynaist o groth fy mam." Sal. 71. 6.

3. Y galluoedd eneidiol, â'r rhai y'n cynhysgaeddwyd ganddo; canys ni buasai yn gyfiawn iddo ofyn mwy genym ni na chan ei greaduriaid eraill, oni buasai iddo roddi mwy *i* ni: "Yr hwn sydd yn ein dysgu yn fwy nag anifeiliaid y ddaear, ac yn ein gwneuthur yn ddoethach nag ehediaid y nefoedd." Job 35. 11.

G. 5. *Beth yw swm neu gyflawnder y gyfraith?*

A. "Cyflawnder y gyfraith yw cariad." Rhuf. 13. 10.

G. 6. *Pa ham y dylem ni garu Duw?*

A. 1. Oblegid yr hyn ydyw ynddo ei hun: "Duw, cariad yw." 1 Ioan 4. 8.

2. Oblegid ei gariad ef tuag atom ni: "Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." 1 Ioan 4. 19.

G. 7. *Pa fodd y dylem ni ei garu ef?*

A. Uwchlaw pawb arall: "Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl." Math. 22. 37.

G. 8. *A oes genym allu i garu yr Arglwydd?*

A. Oes: "Câr di gan hyny yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth." Deut. 6. 5.

G. 9. *Pa beth ydyw'r achos gan hyny na byddem yn ei garu ef?*

A. Gelyniaeth wreiddiol ein calonau llygredig tuag ato: "Dywedant hefyd wrth Dduw, Cilia oddiwrthym, canys nid ydym yn chwenych gwybod dy ffyrdd." Job 21. 14.

G. 10. *Beth yw ein dyledswyddau tuag at ein cyd-greaduriaid yn gyffredinol?*

Digitized by Google

A. Eu caru fel ni ein hunain, a gwneuthur i bawb fel yr ewyllysiem iddynt hwythau wneuthur i ninau: "Câr dy gymydog fel ti dy hun. Am hyny, Pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy: canys hyn yw y gyfraith a'r prophwydi." Math. 22. 39. a 7. 12.

G. 11. *Pa bethau sydd i ni eu hystyried yn wyneb y gyfraith a roddes yr Arglwydd yn rheol bywyd i ni?*

A. 1. Dylem ystyried cyfiawn awdurdod a hawl Duw fel ein Creawdwr, i roddi cyfraith i ni, ac nad oes gan neb arall yr awdurdod hon ond efe: "Un gosodwr cyfraith sydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli." Iago 4. 12.

2. Purdeb ac uniondeb y gyfraith a roddes efe i ni, yn gorchymyn ond yr hyn sydd dda, nac yn gwahardd ond yr hyn sydd ddrwg: "Am hyny uniawn y cyfrifais dy orchymynion am bob peth: a chaseais bob gau lwybr." Sal. 119. 128.

3. Ysprydolrwydd a manylrwydd y ddeddf, gan ei bod yn gofyn yr holl ddyn, gorph ac enaid, bob amser; ac yn ei rwymo i berffaith ufudd-dod, neu i dragywyddol gosp am anufudd-dod: "Canys ni a wyddom fod y ddeddf yn ysprydol." Rhuf. 7. 14.

4. Yn wyneb gofyniadau y ddeddf, a'n sefyllfa ninau tan y ddeddf, ymddengys mawr werth Cyfryngwr, a'n mawr angen am dano: "Y ddeddf gan hyny oedd ein hathraw ni at Grist." Gal. 3. 24.

5. Y mawrion rwymedigaethau sydd arnom i fod yn ddiolchgar i'r Arglwydd am ei gyfraith i'n cyfarwyddo: "Y mae efe yn mynegu ei eiriau i Jacob, ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Israel. Ni wnaeth efe felly âg un genhedl, ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef. Molwch yr Arglwydd." Sal. 147. 19, 20.

6. Parhaus weddio am ras i drefnu ein bywyd yn ol y gyfraith: "O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau!" Sal. 119. 5.

Digitized by Google

# PEN. XIX.

## YN MHELLACH AR DDYLEDSWYDDAU.

G. 1. *Pa rai ydynt sylfaeni ein dyledswyddau tuag at ein gilydd?*

A. 1. gorchymyn Duw, yr hwn sydd ganddo yr un hawl i'n dysgu pa fodd i ymddwyn tuag at ein gilydd, yn gystal a thuag ato ef ei hun.

2. Ein perthynas agos â'n gilydd: "Ac efe a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion, i breswylio ar wyneb yr holl ddaear." Act. 17. 26.

G. 2. *Yn mha berthynasau yn fwyaf neillduol y mae dynion yn sefyll rhyngddynt â'u gilydd?*

A. Gwladol, Teuluaidd, ac eglwysig.

G. 3. *Pa rai ydynt y perthynasau gwladol?*

A. Y berthynas sydd rhwng y brenhin â'r deiliaid, a rhwng y deiliaid â'u gilydd fel cyd-aelodau tan yr un pen.

G. 4. *Beth yw dyledswydd brenhin tuag at y deiliaid?*

A. Eu llywodraethu yn gyfiawn: "Bydded llywodraethwr ar ddynion yn gyfiawn, yn llywodraethu mewn ofn Duw." 2 Sam. 23. 3.

G. 5. *Beth yw dyledswydd y deiliaid tuag at y brenhin?*

A. 1. Ymostwng i'w lywodraeth, ac ufuddhau i'w gyfreithiau: "Yr ydwyf yn dy rybuddio i gadw gorchymyn y brenhin, a hyny o herwydd llŵ Duw. Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel: canys nid oes awdurdod ond oddiwrth Dduw; a'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio." Preg. 8. 2. Rhuf. 13. 1.

2. Ei barchu a'i anrhydeddu: "Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y brenhin." 1 Pedr 2. 17.

3. Gweddio trosto: "Cynghori yr ydwyf am hyny yn mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddiau, deisyfiadau, a thalu diolch tros bob dyn; tros frenhinoedd a phawb sydd mewn goruchafiaeth." 1 Tim. 2. 1, 2.

Digitized by Google

G. 6. *Pa rai ydynt y perthynasu teuluaidd?*

A. Y berthynas sydd rhwng gwŷr â'u gwragedd; Rhieni â'u plant; Meistriaid â'u gweinidogion.

G. 7. *Beth yw dyledswydd gwyr tuag at eu gwragedd?*

A. 1. Glynu wrthynt: "O herwydd hyn yr ymedy dyn â'i dad, ac â'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig." Gen. 2. 24.

2. Eu caru megis eu cyrph eu hunain: "Felly y dylai y gwŷr garu eu gwragedd, megis eu cyrph eu hunain." Eph. 5. 28.

3. Bod yn ffyddlon iddynt yn ol y cyfamod priodasol: "O herwydd mai yr Arglwydd a fu dyst rhyngot ti a rhwng gwraig dy ieuengctyd, yr hon y buost anffyddlon iddi; er ei bod yn gymhar i ti, ac yn wraig dy gyfamod.—Am hyny gwyliwch ar eich yspryd, ac na fydded neb anffyddlon yn erbyn gwraig ei ieuengctyd." Mal. 2. 14, 15.

G. 8. *Beth yw dyled gwragedd tuag at eu gwŷr?*

A. 1. Ufuddhau ac ymostwng iddynt: "Y gwragedd, ymostyngwch i'ch gwŷr priod megis i'r Arglwydd. Oblegid y gŵr yw pen y wraig, megis ag y mae Crist yn ben i'r eglwys, ac efe yw iachawdwr y corph. Ond fel y mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist, felly hefyd bydded y gwragedd i'w gwŷr priod yn mhob peth." Eph. 5. 22, 23, 24.

2. Eu hanrhydeddu a'u parchu "A'r wraig edryched ar iddi berchi ei gŵr." Eph. 5. 33.

G. 9. *Beth yw dyled rhieni tuag at eu plant?*

A. 1. Eu cyflwyno i'r Arglwydd trwy yr ordinhad o fedydd: canys, "Wele plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd; ei wobr ef yw ffrwyth y groth." Sal. 127. 3.

2. Eu haddysgu yn fore yn mhethau yr Arglwydd: "Canys Efe a sicrhaodd dystiolaeth yn Jacob, ac a osododd gyfraith yn Israel, y rhai a orchymynodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant." Sal. 78. 5.

3. Eu ceryddu pan f'o achos: "Na thyn gerydd oddi-

Digitized by Google

wrth dy blentyn: os curi ef â gwialen, ni bydd efe marw. Cur ef â gwialen, a thi a achubi ei enaid ef rhag uffern." Diar. 23. 13, 14.

4. Gweddio trostynt: "Dyrchafa dy ddwylaw ato ef am einioes dy blant." Galar. 2. 19.

5. Gofalu hyd eithaf eu gallu am eu sefyllfaoedd a'u hamgylchiadau yn y byd: "Ac od oes neb heb ddarbod tros yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r diffydd." 1 Tim. 5. 8.

G. 10. *Beth yw dyled plant at eu rhieni?*

A. 1. Eu hanrhydeddu ac ufuddhau iddynt: "Y plant, ufuddhewch i'ch rhieni yn yr Arglwydd, canys hyn sydd gyfiawn." Eph. 6. 1. Ecs. 20. 12.

2. Gwrando ar, a chymeryd eu haddysgiadau: "Fy mab, cadw orchymyn dy dad, ac nac ymado â chyfraith dy fam." Diar. 6. 20.

3. Eu cynhorthwyo mewn henaint a gwendid: "Canys Moses a ddywedodd, Anrhydedda dy dad a'th fam: a'r hwn a felldithio dad neu fam, bydded farw y farwolaeth. Ac meddwch chwithau, Os dywed dyn wrth ei dad neu ei fam, Corban, hyny yw, Rhodd, trwy ba beth bynag y ceit lês oddiwrthyf fi; difai fydd. Ac nid ydych mwyach yn gadael iddo wneuthur dim i'w dad neu i'w fam. Gan ddirymu gair Duw â'ch traddodiad eich hunain, yr hwn a draddodasoch chwi." Marc 7. 10, 11, 12, 13.

G. 11. *Beth yw dyledswydd meistriaid at eu gweinidogion?*

A. 1. Bod yn hynaws a thirion wrthynt: "A chwithau, feistriaid, gwnewch yr un pethau tuag atynt hwy, gan roddi bygwth heibio: gan wybod fod eich Arglwydd chwi a hwythau yn y nefoedd: ac nid oes derbyn wyneb gyd âg ef." Eph. 6. 9.

2. Talu yr hyn sydd ddyledus a chyfiawn iddynt am eu gwasanaeth: "Y meistriaid, gwnewch i'ch gweision yr hyn sydd gyfiawn ac uniawn; gan wybod fod i chwithau Feistr yn y nefoedd." Col. 4. 1.

Digitized by Google

G. 12. *Beth yw dyledswydd gweinidogion tuag at eu meistriaid?*

A. 1. Eu cyfrif yn deilwng o bob parch ac anrhydedd; "Cynifer ag sy yn wasanaethwyr tan yr iau, tybiant eu meistriaid eu hun yn deilwng o bob anrhydedd; fel na chabler enw Duw a'i athrawiaeth ef." 1 Tim. 6. 1.

2. Ufuddhau iddynt yn mhob peth: "Y gweision, ufuddhewch yn mhob peth i'ch meistriaid yn ol y cnawd." Col. 3. 22.

3. gwneuthur eu gwasanaeth yn ddidwyll: "Nid â golwg wasanaeth, fel boddlonwyr dynion; ond fel gweision Crist, yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon." Eph. 6. 6.

G. 13. *Pa rai yw dyledswyddau Crist'nogion tuag at eu gilydd yn ol natur eu cyfamod eglwysig?*

A. 1. Caru eu gilydd gyda'r anwyldeb a'r serch mwyaf gwresog: "Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd: fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd." Ioan 13. 34.

2. Rhybuddio, cynghori, a dyddanu eu gilydd: "Ond yr ydym yn deisyf arnoch, frodyr, rhybuddiwch y rhai afreolus, dyddanwch y gwan eu meddwl, cynheliwch y gweiniaid, byddwch ymarhous wrth bawb." 1 Thes. 5. 14.

3. Cyd-ddwyn â'u gilydd, a maddeu i'w gilydd: "Gan gyd-ddwyn â'ch gilydd, a maddeu i'ch gilydd: os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb; megis ag y maddeuodd Crist i chwi, felly gwnewch chwithau." Col. 3. 13.

4. Cyffesu eu camweddau i'w gilydd, a gweddio tros eu gilydd: "Cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd, a gweddiwch tros eich gilydd." Iago 5. 16.

G. 14. *Beth a welwn ni oddiwrth hyn?*

A. 1. Mawr ddaioni Duw yn ei waith yn ymostwng i'n cyfarwyddo, ac i ddangos i ni y fford y dylem rodio: "Pwy sydd fel yr Arglwydd ein Duw ni, yr hwn sydd yn preswylio yn uchel? yr hwn a ymddarostwng i edrych y pethau yn y nefoedd, ac yn y ddaear." Sal. 113. 5, 6.



Digitized by Google

2. Pe byddai pawb yn cyflawni eu dyledswyddau tuag at eu gilydd yn ol y gair, y byddai dedwyddwch a gwynfydedigrwydd y byd yn fawr: "A chynnifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnynt a thrugaredd, ac ar Israel Duw." Gal. 6. 16.

---

## PEN. XX.

### AM YR ADGYFODIAD.

G. 1. *A fydd adgyfodiad i'r meirw yn gyffredinol?*

A. Bydd: "A chenyf obaith ar Dduw, yr hon y mae y rhai hyn eu hunain yn ei ddysgwyl, y bydd adgyfodiad y meirw, i'r cyfiawnion, ac i'r anghyfiawnion." Act. 24. 15.

G. 2. *Pa sicrwydd y sydd y cyfodir y meirw?*

A. 1. Y mae y gair Dwyfol yn ei sicrhau: "Canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef: A hwy a ddeuant allan; y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn." Ioan 5. 28, 29.

2. Y mae gallu Duw yn ddigonol at y gorchwyl: "Pa beth, ai anghredadwy y bernir genych chwi y cyfyd Duw y meirw?" Act. 26. 8.

3. Y mae adgyfodiad Crist yn ei sicrhau: "Ac os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw; pa fodd y dywed rhai yn eich plith chwi, nad oes adgyfodiad y meirw? Eithr onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Crist chwaith. Eithr yn awr Crist a gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant." 1 Cor. 15. 12, 13. a 20.

4. Y mae cyrph y saint, yn gystal a'u heneidiau, wedi eu prynu gan Grist, yn aelodau iddo, ac yn demlau i'r Yspryd Glân: "Oni wyddoch chwi fod eich cyrph yn

Digitized by Google

aelodau i Grist? Oni wyddoch chwi fod eich corph yn deml i'r Yspryd Glân?" 1 Cor. 6. 15—19.

5. Y mae goruchwyliaeth natur yn nhymhorau y flwyddyn, yn rhagddangosiad o hono; yr holl greadigaeth fel yn ei ddysgwyl, a'r holl saint yn hiraethu am dano ac yn ei ddymuno: "Canys awyddfryd y creadur sydd yn dysgwyl am ddatguddiad meibion Duw. Ac nid yn unig y creadur, ond ninau hefyd, y rhai sydd genym flaen-ffrwyth yr Yspryd, yr ydym ninau ein hunain hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, gan ddysgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth ein corph." Rhuf. 8. 19. a 23.

6. Y mae yn gyfiawn gyda Duw i gyfodi cyrph yr annuwiolion hefyd, megis ag y buont yn cyd-bechu â'u heneidiau, fel y byddont yn gydgyfranogion o'r gospedigaeth: "Canys cyfiawn yw ger bron Duw dalu cystudd i'r rhai sy yn eich cystuddio chwi; Ac i chwithau, y rhai a gystuddir, esmwythdra gyda ni, yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef gyda 'i angylion nerthol." 2 Thes. 1. 6, 7.

G. 3. *Pa fodd y cyfodir y meirw?*

A. "Yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd, a llef yr Archangel, ac âg udgorn Duw. Canys yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir." 1 Thes. 4. 16. 1 Cor. 15. 52.

G. 4. *Ai y cyrph sydd genym yn awr a fydd genym yn yr adgyfodiad?*

A. Ie: "Er ar ol fy nghroen i bryfaid ddyfetha y corph hwn, eto caf weled Duw yn fy nghnawd. Yr hwn a gaf fi im' fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwel, ac nid arall, er i'm harenau ddarfod ynof." Job 19. 26, 27.

G. 5. *Pa fath fydd cyrph y saint yn yr adgyfodiad?*

A. 1. Cyrph ysprydol: "Efe a heuir yn gorph anianol, ac a gyfodir yn gorph ysprydol." 1 Cor. 15. 43.

2. Byddant yn gyffelyb i gorph Crist: "Fel fy nghorph i yr adgyfodant. Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael

ni, fel y gweelir ef yn ei gorff a'i gorph gogoneddus ef." Esa. 26. 19. Phil. 3. 21.

3. Byddant yn gyrph cwbl ryddion oddiwrth unrhyw wendid a llesgedd: "Efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth." 1 Cor. 15. 43.

4. Byddant yn gyrph anfarwol ac anllygredig: "Canys nis gallant farw mwy: oblegid cyd-stad ydynt â'r angelion: a phlant Duw ydynt, gan eu bod yn blant yr adgyfodiad. Efe a gyfodir mewn anllygredigaeth." Luc 20. 36. 1 Cor. 15. 42.

G. 6. *Beth fydd yn gynwysedig yn nedwyddwch y saint yn yr adgyfodiad?*

A. 1. Byddant wedi eu cwbl ryddhau, gyrph ac eneidiau, oddiwrth holl effeithiau pechod, yr hyn ni chymer le, gyda golwg ar eu cyrph, hyd yr adgyfodiad: "A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb, yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenwyd, Angeu a lyncwyd mewn buddugoliaeth." 1 Cor. 15. 54.

2. Cant gyflawn waredigaeth a rhyddhad oddiwrth bob trallod a gofid am byth: "A gwaredigion yr Arglwydd a ddychwelant ac a ddeuant i Sion â chaniadau, ac â llawenydd tragywyddol ar eu pen: goddiweddant lawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar a ffy ymaith." Esa. 35. 10.

3. Byddant yn berffaith ddedwydd yn yr olwg a gânt ar Dduw, a'r mwynhad o hono, a'u tebygoliaeth eu hunain iddo: "Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder; digonir fi pan ddihunwyf â'th ddelw di." Salm. 17. 15.

G. 7. *A fydd y dedwyddwch hwn yn fawr?*

A. Bydd yn annhraethol, ac yn anamgyffredadwy: "Eithr fel y mae yn ysgrifenedig, Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef." 1 Cor. 2. 9.

Digitized by Google

G. 8. *Pa fath olwg fydd ar yr annuwiolion yn yr adgyfodiad?*

A. Golwg ddirmygus a gwarthus iawn: "A llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffröant; rhai i fywyd tragywyddol, a rhai i warth a dirmyg tragywyddol. Dan. 12. 2.

G. 9. *Beth fydd yn gynwysedig yn nhrueni yr annuwiolion yn yr adgyfodiad?*

A. 1. Bydd eu hofn a'u harswyd yn fawr iawn: "Wele, y mae efe yn dyfod gyda'r cymylau: a phob llygad a'i gwel ef, ïe, y rhai a'i gwanasant: a holl lwythau y ddaear a alarant o'i blegid ef," Dat. 1. 7.

2. Bydd euogrwydd pechod, a theimlad o ddigofaint Duw o'i herwydd, yn arteithio eu heneidiau: "A hwy a ânt allan, ac a edrychant ar gelanedd y rhai a wnaethant gamwedd i'm herbyn; canys eu pryf ni bydd marw, a'u tân ni ddiffydd: a byddant yn ffieidd-dra gan bob cnawd." Esa. 66. 24.

3. Bydd pob gobaith am ymwared wedi ei golli ganddynt am byth: "Yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn eto; a'r hwn sydd frwnt, bydded frwnt eto." Dat. 22. 16.

G. 10. *Beth a ddylem ddysgu oddiwrth yr ystyriaethau hyn?*

A. Dylent ein cyffroi i fyw yn dduwiol a sanctaidd: "A chan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod, mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb? 2 Pedr 3. 11.

---

## PEN. XXI.

### Am y Farn.

G. 1. *Beth fydd yn canlyn yr adgyfodiad?*

A. Barnu pawb yn ol ei weithredoedd: "Canys rhaid

i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag ai da ai drwg." 2 Cor. 5. 10.

G. 2. *Pwy fydd y Barnwr?*

A. Iesu Grist: "Ac efe a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, a thystiolaethu mai efe yw yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw." Act. 10. 42.

G. 3. *Paham y gosodwyd Crist i fod yn farnwr?*

A. 1. Rhoddwyd y swydd hon iddo fel gwobr am ei waith fel Cyfryngwr: "Y Tad nid yw yn barnu neb; eithr efe a roddes bob barn i'r Mab. Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn, o herwydd ei fod yn Fab dyn." Ioan 5. 22. 27.

2. Fel y byddai y barnwr yn weledig i bawb: "A phob llygaid a'i gwel ef." Dat. 1. 7.

G. 4. *Yn mha ddull y daw Crist i'r farn?*

A. 1. Mewn dull mawreddig a gogoneddus iawn: "A hwy a welant Fab y dyn yn dyfod ar gymylau y nef, gyda nerth a gogoniant mawr." Math. 24. 30.

2. Yn ddisymwth iawn: "Oblegid chwi a wyddoch eich hunain yn hyspys, mai felly y daw dydd yr Arglwydd, fel lleidr yn y nos." 1 Thes. 5. 2.

G. 5. *Pwy a gaiff eu barnu?*

A. Pawb oll, y byw a'r meirw: "Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd—a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd." Dat. 20. 12.

G. 6. *Pa beth a wna Crist fel barnwr y diwrnod hwnw?*

A. 1. Didoli y cyfiawnion a'r anghyfiawnion oddiwrth eu gilydd am byth: "A chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd: ac efe a'u didola hwy oddiwrth eu gilydd, megis y didola'r bugail y defaid oddiwrth y geifr." Math. 25. 32.

2. Fe ddengys y rhagor sydd rhwng y duwiol a'r annuwiol yn amlwg iawn i bawb: "A byddant eiddo fi,

Digitized by Google

medd Arglwydd y lluoedd, y dydd y gwnelwyf briodoledd; arbedaf hwynt hefyd fel yr arbed gŵr ei fab sydd yn ei wasanaethu. Yna y dychwelwch, ac y gwelwch ragor rhwng y cyfiawn a'r drygionus, rhwng y hwn a wasanaetho Dduw, a'r hwn nis gwasanaetho ef." Mal. 3. 17. 18.

3. Fe ymddengys ei hunan yn ogoneddus iawn yn ei bobl: "Pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai sy yn credu." 2 Thes. 1. 10.

4. Fe lwyr symud ymaith bob barn a thybiau cyfeiliornus am Dduw a'i lywodraeth o fynwes pawb: "Hyn a wnaethost, a mi a dewais: tybiaist tithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun: ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid." Sal. 50. 21.

5. Fe lwyr ddinystria ei holl elynion: "Y rhai a ddyoddefant yn gospedigaeth ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef." 2 Thes. 1. 9.

G. 7. *Pa anrhydedd fydd i'r saint yn y farn?*

A. 1. Cânt ymddangos gyda Christ mewn gogoniant: "Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant." Col. 3. 4.

2. Cânt eu gosod ar ddeheulaw y Barnwr: "Ac a esyd y defaid ar ei ddeheulaw." Math. 25. 33.

3. Cânt eu harddel yn gyhoeddus ganddo: "Yr hwn sydd yn gorchfygu, hwnw a wisgir â dillad gwynion; ac ni ddileaf ei enw ef allan o lyfr y bywyd, ond mi a gyffesaf ei enw ef ger bron fy Nhad, a cher bron ei angelion ef." Dat. 3. 5

4. Cânt eistedd gyda 'r Barnwr i gyd-weinyddu y farn ar y byd annuwiol, ac ar yr angelion syrthiedig: "Oni wyddoch chwi y barna y saint y byd? Oni wyddoch chwi y barnwn ni angelion?" 1 Cor. 6. 2, 3.

G. 8. *A fydd trueni yr annuwiol yn fawr yn y farn?*

A. Bydd: oblegid, 1. Cânt eu gosod ar law aswy y

Digitized by Google

Barnwr, yr hyn fydd yn arwydd o'u gwrthodiad a'u hanghymeradwyaeth: "Ond y geifr ar yr aswy." Math. 25. 33.

2. Byddant yn cael eu diarddel ganddo: "Ac efe a atebodd ac a ddywedodd, Yn wir, meddaf i chwi, nid adwaen chwi." Math. 25. 12.

3. Byddant yn cael eu tragywyddol alltudio o'i bresenoldeb i fythol ddinystr: "Yna dywed efe hefyd wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angelion." Math. 25. 41.

*G. 9. Pa effaith a ddylai yr ystyriaethau hyn gael arnom ni?*

A. Ein deffroi i ymofyn am gael gwneuthur ein barn a'n mater yn dda, a chael heddwch â'r Barnwr cyn ei wynebu mewn barn: "Cytuna â'th wrthwynebwr ar frys, tra fyddech ar y ffordd gydag ef; rhag un amser 'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw y barnwr, ac i'r barnwr dy roddi at y swyddog, a'th daflu yngharchar." Math. 5. 25.

Pan floeddio yr archangel pan gano udgorn Duw,
Fe ddryllir barau cedyrn carcharau dynolryw;
Holl deulu oesau'r ddaear sy'n cysgu yn llwch y llawr,
Deffroant, a chyfodant o'u hen orweddle 'nawr.

Yngydwir owsg marwoldeb yn awr oddiar bob grudd,
A charcharorion angeu ollyngir oll yn rhydd;
Ac fe anadla bywyd trwy fro marwolaeth drist,
Trwy rinwedd un ymadrodd o enau Iesu Grist.

Rhed eneidiau'r seintiau o'r nefoedd gyda'i air,
Eneidiau'r annuwiolion a gwyd o uffern bair;
A'u cyrph i'r lan o'r beddau ddaw i'w cyfarfod hwy,
A gwisgant anfarwoldeb, ni bydd ysgaru mwy.

Digitized by Google

Y Barnwr gogoneddus a ferchyg gwiawl gwyn,
A llyfrau 'r farn drag'wyddol agorir y pryd hyn;
Angelion fyrdd myrddiynau o gylch yr orsedd fawr,
Cythreuliaid a phlant Adda oll ger ei fron yn awr.

Y Gŵr a fu tan hoelion ar ben Calfaria fryn,
A rydd i bawb eu dedryd drag'wyddol y pryd hyn;
Un gair o'i ddwyfol enau, wahana 'r dorf yn ddwy,
Ac enfyn bawb i'w gartref anghyfnewidiol mwy.

Yn awr fe lyngcir angeu mewn buddugoliaeth lawn,
Marwolaeth ni bydd mwyach, gwel'd ei diwedd a gawn;
Fe orfoledda 'r seintiau, mewn bywyd pur dilyth,
Bydd annuwiolion hwythau yn marw heb farw byth.

---

*Y Pennillion canlynol a ddylent fod ar ol* PEN. X.—*ond a anghofiwyd.*

Ein Iesu 'n ddirmygedig ddaeth,
O'i gariad yn ddigwyn;
A llwyr ddibrisio 'i hun a wnaeth,
O'i wirfodd er ein mwyn.

Yr Hollgyfoethog ddaeth yn dlawd,
Heb le i ro'i ben i lawr;
Daeth Brenhin nefoedd i ni 'n frawd,
O rym ei gariad mawr!

Tywalltai 'i werthfawrocaf waed,
I olchi ffwrdd ein bai;
Ac yn ei gleisiau mae iachâd,
I glwyfau euog rai.

Digitized by Google

Dyrchafodd o waelodion bedd,
Goruwch y nefoedd wen:
Mae'n eistedd mewn brenhinol wedd,
A'i goron ar ei ben.

Ei glod a seinio allan trwy
Bob lle y t'wna haul:
Ac wrth ei draed y rhodder mwy
Coronau rif y dail.

Boed peraroglau 'i enw drud
Yn llenwi 'r ddaear lawr;
A chladder enwau 'r byd i gyd,
Yn enw Iesu mawr.

24 DE 67

DIWEDD.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google